Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRU A'R NODAU DATBLYGU CYNALIADWY

2019

Adroddiad Atodol i Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon o gynnydd tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy 2030

NODAU DATBLYGU CYNALIADWY

Y Cymru a Garem
The Wales We Want

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Rhagair

Mae Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn gosod agenda uchelgeisiol er mwyn trawsnewid y byd i bobl ac i'r blaned ac er mwyn iddynt ffynnu. Rydym ni'n rhannu'r uchelgais hon yng Nghymru, ac rydym wedi ymroi i gyfrannu at y nodau.

Wrth i ni edrych yn ôl ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni ers cytuno ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy yn 2015, dylem bwyso a mesur y camau a gymerwyd gennym yng Nghymru i'n paratoi ni ar gyfer Agenda 2030.

Yn 2015, gwnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru benderfyniad hanesyddol i sicrhau bod llwybr Cymru yn newid i fod yn llwybr mwy cynaliadwy drwy basio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd hyn yn adlewyrchu'r ymdrech ddiflino gan bobl o bob cwr o Gymru i gryfhau'r ffordd y mae dyfodol Cymru'n cael ei siapio. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad y gymdeithas yng Nghymru i sicrhau ansawdd bywyd gwell i genedlaethau heddiw ac yfory.

Fe wnaethom greu consensws ynghylch nodau cyffredin ar gyfer y dyfodol sy'n integredig ac yn annatod; mae'r rhain yn adlewyrchu pedwar dimensiwn datblygu cynaliadwy – ein heconomi, ein cymdeithas, ein hamgylchedd, ac yn bwysig i Gymru, ein hiaith a'n diwylliant.

Aethom ati i gynnull ac ymgysylltu â phobl ledled Cymru drwy gynnal sgwrs genedlaethol am 'Y Gymru a Garem yn 2050'.

Fe wnaethom ehangu ein rhwymedigaethau hanesyddol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ymysg 44 o gyrff cyhoeddus, a deddfu i sicrhau mai datblygu cynaliadwy fydd prif egwyddor drefniadol pob sefydliad.

Aethom ati i sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol annibynnol a statudol, y cyntaf yn y byd, i ddadlau o blaid yr hirdymor ac i gefnogi'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru.

Daethom â llywodraeth leol ynghyd â chwaraewyr allweddol eraill mewn partneriaethau statudol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i roi datblygu cynaliadwy ar waith ar lefel leol.

Fe wnaethom ddatgan yn glir mai diben datblygu cynaliadwy yw gweithio mewn ffordd wahanol – i Gymru, mae hyn yn golygu edrych tuag at y dyfodol; integreiddio pedwar dimensiwn datblygu cynaliadwy; cydweithio i ganfod a chynnig atebion mwy cynaliadwy; atal problemau rhag codi neu waethygu; a dod o hyd i ffyrdd newydd o gynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt fel mai nhw sydd â pherchnogaeth dros yr atebion a'r dyfodol.

Rydym yn gwneud pethau'n wahanol yng Nghymru.

Ond rydym yn gwybod nad oes diben newid deddfwriaeth oni bai ein bod yn gweithredu'r newidiadau hynny hefyd. Ers 2015, mae'r cyd-destun y mae Cymru'n cyflawni'r uchelgeisiau hyn ynddo wedi newid cryn dipyn ond mae'r fframwaith a roddwyd gan y Ddeddf yn rhoi llwyfan cryf i ni ddelio â'r heriau cymhleth hyn a'r ansicrwydd mewn ffordd fwy cydlynol a chynaliadwy.

Ers 2015, mae ein deddfwriaeth ar ddatblygu cynaliadwy wedi ysgogi camau gweithredu a thrafodaeth ynghylch sut rydym yn trawsnewid Cymru i fod yn wlad fwy cynaliadwy.

Yr Adroddiad Atodol hwn yw'r cofnod o'n cynnydd hyd yma. Mae ein saith nod llesiant yn ffrâm i'r adroddiad, oherwydd eu bod yn cyfleu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yng nghyd-destun

Cymru, ac yn cyfleu cyfraniad ein gwlad at y nodau hynny. Mae'r adroddiad yn gyfle amserol i bwyso a mesur y cynnydd yng Nghymru, wrth i ni nesáu at 2020. Mae pum mlynedd wedi mynd heibio ers cytuno ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy a'n nodau llesiant ein hunain, a phum mlynedd ers i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gael cydsyniad brenhinol. Y flwyddyn nesaf, bydd adroddiad cyntaf Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru, sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi gan Gomisiynydd annibynnol Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru. Bydd hyn yn rhoi syniad annibynnol i ni o'r cynnydd o dan y Ddeddf.

Mae Cymru'n wahanol oherwydd mai datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefniadol sy'n siapio'r hyn a wna a sut mae'n gweithio. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau er lles cenedlaethau heddiw ac yfory, ac yn defnyddio doniau pawb er mwyn i'n gwlad allu ffynnu. Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd y senedd gyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng hinsawdd, ac mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd i gynyddu targed lleihau allyriadau i 95% erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd cyfrifoldebau byd-eang Cymru o ddifrif, ac rydym yn ymroddedig i wneud popeth o fewn ein grym i'w cyflawni.

Wrth i bumed flwyddyn y Ddeddf ddynesu, rydym yn gweld buddion sylweddol o ganlyniad i'w rhoi ar waith. Ond mae newid diwylliant yn cymryd amser, ac efallai na fyddwn yn gweld y buddion mwyaf eto am gryn amser. Rydym yn sylweddoli bod dal mwy i ni ei wneud i wreiddio'r Ddeddf yn llwyr o fewn Llywodraeth Cymru ac ar draws y sector cyhoeddus; gan weithio gyda chymdeithas sifil, rydym wedi ymroi i gyflawni'r dyheadau yn y Ddeddf. Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn a'n cyfraniad at Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yn gallu ein helpu i fesur lle rydym ni ar hyd y daith hon, a helpu i dynnu sylw at le mae angen gwneud mwy o waith.

Rydym yn ddiolchgar i'r rheini a fu yn Uwchgynadleddau Nodau Datblygu Cynaliadwy yn gynharach yn y flwyddyn, ac i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru ac aelodau o weithgor 'Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy' a fu'n helpu i siapio'r adroddiad atodol hwn.

Mark Drakeford AC

Prif Weinidog Cymru

Jane Hutt AC

Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip

Barn Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mae Cymru yn wlad fach â gweledigaeth uchelgeisiol. Drwy'r ffordd rydym yn edrych ar ddatblygu cynaliadwy, rydym wedi dangos ein hymrwymiad i wella llesiant pobl a'r blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r adroddiad atodol hwn i Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol y DU yn ychwanegiad cyffrous; mae'n tynnu sylw at y cynnydd mae Cymru wedi'i wneud o ran cyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a'n Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Fy rôl fel Comisiynydd yw cefnogi a herio cyrff cyhoeddus wrth iddynt weithredu'r ddeddfwriaeth arloesol hon. Pan basiwyd y Ddeddf, dywedodd y Cenhedloedd Unedig yr hyn a wna Cymru heddiw, y bydd y byd yn ei wneud yfory – ac mae sawl cornel o'r byd yn edrych erbyn hyn ar yr esiampl rydym ni'n ei osod yma yng Nghymru o ran cynaliadwyedd.

Ar lefel ryngwladol, mae ein ffordd o wneud pethau yn parhau i ysbrydoli a dylanwadu ar newid. Mae bod yn aelod o'r Rhwydwaith Sefydliadau dros Genedlaethau'r Dyfodol (NIFG) wedi bod yn allweddol i ddatblygu methodoleg o rannu arferion gorau rhwng gwledydd eraill sy'n aelodau fel Israel, Hwngari, Norwy, Y Ffindir, Seland Newydd a Chanada.

Dywedodd yr Athro Jonathan Boston o Brifysgol Victoria, Seland Newydd, fod ein deddfwriaeth yn anhygoel o ran ei hehangder, yr hyn mae'n ei gynnwys, a'r uchelgais sydd ynddi. Dywedodd nad oes dim byd sy'n debyg iddi yn unman arall yn y byd ar hyn o bryd. Mae'r gwaith mae tîm y Comisiynydd wedi'i wneud mewn cyfnod byr iawn wedi creu argraff enfawr arno.

Mae'r byd yn edrych yn eiddgar yn awr i weld Cymru yn cyflawni, ac mae'n wir dweud mai'r newidiadau a welwn yn llesiant pobl fydd yn cadarnhau effeithiolrwydd ein deddfwriaeth a'n ffordd o gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Mae tair blynedd wedi mynd heibio ers rhoi'r Ddeddf ar waith, a phedair blynedd ers cychwyn Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, ac mae'n amlwg i mi fod ffyrdd o weithio'n newid, bod y status quo yn cael ei gwestiynu, ac nad yw gweithredu yn unol â'r arfer yn ateb y gofyn mwyach.

O'r newidiadau trawsnewidiol – ail-lunio Polisi Cynllunio Cymru i gyd-fynd â'n ffordd o edrych ar ddatblygu cynaliadwy, datgan argyfwng yn yr hinsawdd, ymrwymo i sicrhau lleihad llwyr mewn allyriadau erbyn 2050, canolbwyntio ar economi sylfaenol a mabwysiadu diffiniad o atal ar draws y Llywodraeth i gadw llygad ar flaenoriaethau gwariant – i'r newidiadau bach ond yr un mor arwyddocaol sy'n digwydd ar draws awdurdodau lleol a chyrff cenedlaethol; mae pobl Cymru yn ymateb i heriau'r dyfodol, heddiw.

Mae fy rôl fel Comisiynydd yn unigryw, gyda pheth heriau. Nid yw cael y cydbwysedd rhwng cefnogi a herio wedi bod yn hawdd bob tro, yn enwedig yn y blynyddoedd cyntaf. Mae llawer yn rhagweld newidiadau mawr dros nos, ond mae realiti yn llawer arafach pan ddaw'n fater o ail-siapio patrymau a ffyrdd o weithio sy'n bodoli ers cenedlaethau.

Mae'n deg dweud nad ydw i, yn ystod fy mlynyddoedd cyntaf, wedi bod ag ofn herio Llywodraeth Cymru a gweddill y sector cyhoeddus pan ydw i'n teimlo bod y cynnydd yn rhy araf neu lle mae hen arferion a ffyrdd o weithio'n methu ag adlewyrchu'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy.

Er enghraifft, mae tystiolaeth yn dangos bod diffyg dealltwriaeth am y nod i gael ‘Cymru gydnerth’, gydag amcanion a chamau a osodwyd gan gyrff cyhoeddus yn canolbwyntio ar drafnidiaeth ac ynni carbon isel, yn lle cefnogi ecosystemau gweithredol iach.

Yn yr un modd, mae tystiolaeth yn dangos mai ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd am y nod ‘Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang’, ac nid yw llawer o’r amcanion sydd wedi’u gosod ar gyfer y nod ‘Cymru lewyrchus’ yn llwyddo i fynd y tu hwnt i gyflogaeth a chynnyrch domestig gros (GDP). Mae dealltwriaeth dda ar y cyfan o’r nodau ‘Cymru iachach’ a ‘Cymru sy'n fwy cyfartal’, ond mae dal lle i gyrff cyhoeddus feddwl yn ehangach ac yn fwy cyfannol am bob agwedd ar ein llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol.

Yn ystod y blynyddoedd nesaf, byddaf yn rhoi fy sylw ar sut bydd y Llywodraeth yn ailgyfeirio adnoddau i fynd i’r afael â’r argyfwng yn yr hinsawdd, gan gynnwys: y camau mae’n rhaid iddynt eu cymryd i wrthdroi dirywiad ecolegol, sut mae’n rhaid i ni wella’r ffordd rydym yn cynllunio, dylunio ac adeiladu tai a chymunedau, a sicrhau bod y seilwaith rydym yn dibynnu arno yn addas ar gyfer dyfodol carbon isel.

Byddaf yn canolbwyntio hefyd ar y newidiadau sydd eu hangen fel ein bod yn cyfeirio adnoddau o’r systemau gofal iechyd sy’n gwbl seiliedig ar driniaeth i systemau sy’n canolbwyntio ar atal, ac ar sicrhau bod gennym ni system o ddysgu gydol oes sy’n rhoi cyfle i genedlaethau heddiw ac yfory ffynnu yn economi'r dyfodol.

Yn fy marn i, mae’n glir yn yr adroddiad hwn fod y Ddeddf yn rhoi caniatâd i’r rheini sy’n gweithio yng Nghymru, sy’n gweld bod ffordd well o wneud pethau. Mae gennym gryn ffordd i fynd ac rydym wedi gosod y nod yn uchel i ni ein hunain gyda gweledigaeth uchelgeisiol, ond os yw rhywbeth yn werth ei wneud, mae’n werth pob ymdrech, ac mae cenedlaethau’r dyfodol yn dibynnu arnom ni.

Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru

Cydnabyddiaethau

Uwchgynadleddau Nodau Datblygu Cynaliadwy

Gweithgor Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

Cynnwys

Rhagair 1

Barn Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 3

Cydnabyddiaethau 5

Cynnwys 6

Adran A | Cyflwyniad 7

Adran B | Cynnydd Ar Gyflawni Saith Nod Llesiant Cymru 16

Cymru Lewyrchus 17

Cymru Gydnerth 28

Cymru Iachach 34

Cymru Sy'n Fwy Cyfartal 41

Cymru O Gymunedau Cydlynus 51

Cymru Â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg Yn Ffynnu 56

Cymru Sy'n Gyfrifol Ar Lefel Fyd-Eang 61

Peidio Â Gadael Neb Ar Ôl 65

Adran C | Myfyrio ar gynnydd 68

Adran D: Casgliad 76

Atodiad A 81

Atodiad B 87

Adran A | Cyflwyniad

Cyflwyniad

Yn 2015 penderfynodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn unfrydol i fabwysiadu'r cynllun 'Trawsnewid ein Byd: Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy'. Mae'r cynllun yn amlinellu 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy sy'n ceisio hyrwyddo ymdrechion drwy'r byd i ddileu tlodi a sicrhau datblygu cynaliadwy erbyn 2030 ym mhob rhan o'r byd, gan sicrhau na fydd neb yn cael ei adael ar ôl.

Yn yr un flwyddyn pasiwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn darparu llywodraethu cadarnach dros y tymor hir yng Nghymru. Roedd y Ddeddf yn mynegi ymrwymiad hanesyddol Cymru i ddatblygu cynaliadwy ac yn gosod saith nod llesiant i sicrhau Cymru sy'n fwy cynaliadwy.

Bedair blynedd ers gwneud yr ymrwymiad hanesyddol hwn, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno adroddiad Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol i'r Cenhedloedd Unedig. Er mwyn ategu hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a rhanddeiliaid a thrwy weithgor 'Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy' i baratoi 'Adroddiad Atodol Cymru' er mwyn darparu cynnwys cyfunol ac ychwanegol am y dull gwahanol o ymdrin â datblygu cynaliadwy a gafwyd yng Nghymru.

Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

Mae Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yn darparu glasbrint a rennir ar gyfer heddwch a ffyniant i bobl ac i'r blaned, yn awr ac yn y dyfodol. Yn sail iddi y mae'r 17 Nod Datblygu Cynaliadwy (NDC), sydd yn alwad daer am weithredu gan yr holl wledydd – rhai datblygol a rhai datblygedig – mewn partneriaeth fyd-eang. Maent yn cydnabod bod dileu tlodi a mathau eraill o amddifadedd yn gorfod mynd law yn llaw â strategaethau i wella iechyd ac addysg, lleihau anghydraddoldeb, a sbarduno twf economaidd – gan fynd i'r afael â newid hinsawdd a gweithio i gadw ein cefnforoedd a choedwigoedd yr un pryd.

Mae 4 adran yn Agenda 2030:

(i) Datganiad gwleidyddol
(ii) (ii) set o 17 Nod Datblygu Cynaliadwy a 169 o dargedau (yn seiliedig ar waith yr OWG, gyda rhai newidiadau bach)
(iii) (iii) Dull o Weithredu
(iv) (iv) fframwaith ar gyfer camau dilynol ac adolygu'r Agenda drwy Adolygiadau Cenedlaethol Gwirfoddol gan Aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig.

Adolygiad Gwirfoddol Cenedlaethol y DU 2019

Mae Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol (ACG) cyntaf y DU yn rhoi disgrifiad clir a chynhwysfawr o'r cydymdrechion i

gyflawni'r Nodau ers eu mabwysiadu yn 2015. Mae'n ymdrin â gwaith domestig a rhyngwladol ar bob un o'r 17 Nod, gan ganolbwyntio ar waith domestig. Fe'i cynhyrchwyd drwy gydweithio â gweinyddiaethau datganoledig Cymru a'r Alban a Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon ac ystyried eu mewnbwn.

Uwchgynadleddau Rhanddeiliaid NDCau Cymru 2019

Yn Ionawr 2019, cynhaliwyd dwy Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yng Nghaerdydd a Llandudno i ddod â phobl ynghyd o'r sectorau cyhoeddus a phreifat, addysg bellach ac uwch, a chymdeithas sifil i weld sut mae Cymru'n cyfrannu at gyflawni Agenda 2030 drwy ei nodau llesiant ei hun yn rhan o Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol y DU 2019 a sut y gallwn gynyddu ymdrechion dros ddatblygu cynaliadwy a'r Nodau Byd-eang. Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at ACG y DU. Mae crynodeb o'r digwyddiadau hyn ar gael yma. Yn ystod y digwyddiadau cafwyd galwad gryf am gyfleu stori Cymru ei hun yn ychwanegol i ACG y DU.

Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru

Gosodwyd y fframwaith polisi a sefydliadol ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn gyntaf gan y ddeddfwriaeth a sefydlodd ddatganoli, Deddf Llywodraeth Cymru 1998, lle'r oedd dyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy gynllun. Cryfhawyd y fframwaith hwn yn sylweddol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2015 (Deddf LlCD) drwy ymdrin â datblygu cynaliadwy mewn ffordd gynhwysfawr.

Uchafbwyntiau yn Siwrnai Datblygu Cynaliadwy Cymru

1998	Un o'r gwledydd cyntaf yn y byd sydd â dyletswydd gyfansoddiadol ar ddatblygu cynaliadwy
2000	Y Cynllun Datblygu Cynaliadwy cyntaf – 'Dysgu Byw'n Wahanol'
2002	Cadeirydd y sesiwn yn Johannesburg a sefydlodd rwydwaith byd-eang Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy (Regions4SD bellach)
2002	Un o gyd-ddatblygwyr a llofnodwyr gwreiddiol Datganiad Guateng
2004	Yr ail Gynllun Datblygu Cynaliadwy – Dechrau Byw'n Wahanol
2008	Cenedl Masnach Deg gyntaf y byd
2009	Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned – y trydydd cynllun a ymrwymodd i 'Cenedl Un Blaned' a chydnabod terfynau amgylcheddol byd-eang.

2011	Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a ymrwymodd i ddeddfu ar gyfer datblygu cynaliadwy a chreu corff datblygu cynaliadwy annibynnol
2012	Bil Datblygu Cynaliadwy: Papur Gwyn
2014	Un o lofnodwyd gwreiddiol y Compact Taleithiau a Rhanbarthau
2014	'Y Gymru a Garem erbyn 2050' – sgwrs genedlaethol am ddyfodol Cymru i gyfrannu at y nodau mewn deddfwriaeth.
2014	Cyflwyno Bil Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru
2015	Diogelu arwynebedd coedwigoedd o Faint Cymru
2015	Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
2015	Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 sy'n cynnwys dyletswydd datblygu cynaliadwy.
2016	Penodi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf Cymru – Sophie Howe
2016	Gosod Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru – 46 i fesur cynnydd Cymru.
2016	Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015 – sy'n cynnwys targedau newid hinsawdd, dyletswydd bioamrywiaeth a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng nghyd-destun Deddf LlCD.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Llywodraethu Cadarnach Ar Gyfer Y Tymor Hir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu dull cynhwysfawr o ddatblygu cynaliadwy sy'n adlewyrchu fframwaith Agenda 2030 a oedd wedi'i seilio ar yr arfer gorau drwy'r byd ar y pryd.

Mae'n gosod saith nod llesiant i Gymru sy'n ymdrin â phedwar dimensiwn datblygu cynaliadwy yng Nghymru (amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol), yn rhoi dyletswyddau cyfreithiol i gyrff sector cyhoeddus ac yn sefydlu'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf yn y byd yng Nghymru.

Diffinio Datblygu Cynaliadwy

Yng Nghymru, datblygu cynaliadwy yw'r broses o gyrraedd y nod o gynaliadwyedd. Roedd y Ddeddf yn cynnig cyfle i ddeddfu a darparu rhagor o fanylion am ystyr datblygu cynaliadwy. Felly mae Deddf LICD yn darparu'r diffiniad cyffredinol a ganlyn:

> ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant
>
> A.2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae dwy ran allweddol y diffiniad hwn yn ymwneud â'r ffocws ar ganlyniadau cynaliadwy – y saith nod llesiant, a phenderfynu cynaliadwy – ar sail yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

Roedd yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn ymgorffori diffiniad Bruntland yng nghyfraith Cymru.

Yn y Ddeddf hon, mae unrhyw gyfeiriad at y ffaith bod corff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth "yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy" yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau

A.5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae hon yn rhan hanfodol bellach o'r ffordd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus weithredu yn awr.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru. Mae'r rhain yn cyfleu ac yn trosi'r 17 Nod Datblygu Cynaliadwy yn nodau i Gymru. Mae'r rhain yn cyfleu gweledigaeth i Gymru sy'n adlewyrchu pedwar dimensiwn datblygu cynaliadwy yng Nghymru

Cymru lewyrchus

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

Cymru gydnerth

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

Cymru iachach

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Mae'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn cynnwys pum ffordd o weithio y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus eu hystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.

Y rhain yw:

- Edrych i'r tymor hir fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Cymryd ymagwedd integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant;
- Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir;
- Deall achosion sylfaenol problemau er mwyn eu hatal rhag digwydd.

Gan gydnabod bod partneriaethau lleol yn bwysig ar gyfer datblygu cynaliadwy, mae'r Ddeddf yn sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru a fydd yn asesu cyflwr ei ardal ac yn cytuno ar Gynllun Llesiant Lleol.

Rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yw gweithredu fel gwarcheidwad ar gyfer buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, a chefnogi'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf o ran gweithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

Gall Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru weithredu mewn nifer o ffyrdd gwahanol, yn cynnwys cynghori, hybu ymwybyddiaeth, a chynnal adolygiadau a gwneud argymhellion.

Bydd y Comisiynydd hefyd yn cyhoeddi adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol un flwyddyn cyn pob etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys asesiad y Comisiynydd o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn rhan o'r fframwaith sefydliadol ar gyfer datblygu cynaliadwy gan fod pŵer cyfreithiol ganddo bellach i gynnal archwiliadau o'r cyrff cyhoeddus er mwyn asesu'r graddau y mae'r cyrff wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn amgylchiadau penodol.

Gan gydnabod bod angen deall yr heriau y mae Cymru'n eu hwynebu, rhaid cyhoeddi 'Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol' ar gyfer Cymru bob 5 mlynedd. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, rhaid bodloni gofyniad cyfreithiol i ystyried unrhyw gamau a gymerwyd gan y Cenhedloedd Unedig mewn perthynas â Nodau Datblygu Cynaliadwy y CU. Dyma'r ddyletswydd gyfreithiol gyntaf o'i math sy'n cyfeirio at y NDCau.

Yng Nghymru, mae'r fframwaith ar gyfer mesur datblygu cynaliadwy wedi'i osod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r mecanwaith hwn yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn monitro cynnydd ar gyflawni'r saith nod llesiant statudol drwy 46 Dangosydd Llesiant Cenedlaethol i Gymru ac adroddiad Llesiant Cymru Blynyddol. Mae'r rhain yn mesur cynaliadwyedd Cymru.

Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i osod cerrig milltir i Gymru yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol lle mae Gweinidogion Cymru o'r farn y byddant yn helpu i fesur y cynnydd at gyflawni'r nodau llesiant.

Yn 2017 datblygodd Cymru offeryn ar-lein i fapio nodau llesiant a dangosyddion cenedlaethol Cymru ar y 17 NDC gan

ddangos bod cyfatebiaeth dda rhwng y nodau. Mae'r offeryn ar gael yma.


Cymru gynaliadwy | Pensaernïaeth
Beth (Byd)
Nodau Datblygu Cynaliadwy
1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
11
12
13
14
15
16
17
Beth (Cymru gynaliadwy)
↕ Y nodau llesiant Cymru ↕
Cymru lewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru iachach
Cymru sy'n fwy cyfartal
Cymru o gymunedau cydlynus.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Cynnydd
Dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir
Gwneud Iddo Ddigwydd
Datblygu cynaliadwy a dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus
Amcanion llesiant
Pwy
Rôl unigol
44 cyrff cyhoeddus
Rôl gyfunol
byrddau gwasanaethau cyhoeddus
Sut
Yr egwyddor datblygu cynaliadwy
Hirdymor
Integreiddio
Cydweithio
Cynnwys
Atal
Mwy o Dryloywder
Gwella gwybodaeth
Ymchwiliad
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Cefnogi'r Newid
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Hirdymor
Cyngor
dolygiad
Monitro
Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol
Panel Cynghori

Adran B | Cynnydd Ar Gyflawni Saith Nod Llesiant Cymru

Yn y penodau sy'n dilyn, rydym yn disgrifio'r cynnydd ar gyflawni saith nod llesiant Cymru.

Cymru Lewyrchus

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30	31	32	33	34	35
36	37	38	39	40	41	42
43	44	45	46			

Nod Datblygu Cynaliadwy

CYMRU LEWYRCHUS

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi i Gymru yn defnyddio ysgogiadau i dyfu'r economi, lledaenu cyfleoedd, lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo llesiant. Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar bwrpas cyffredin i weithio gyda busnesau ac eraill i dyfu'r economi mewn modd cynhwysol a lledaenu cyfleoedd. Mae'n cynnwys:

- Hyrwyddo, cefnogi, a sicrhau arferion cyfrifol drwy'r Contract Economaidd.
- Sicrhau bod buddsoddi cyhoeddus yn cyflawni diben cymdeithasol drwy gyfeirio cymorth ariannol at y busnesau hynny sy'n rhannu'r un gwerthoedd, ac sy'n buddsoddi at y dyfodol drwy Feysydd Gweithredu'r Llywodraeth.

Y Contract Economaidd yw'r brif elfen yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi i Gymru, ac mae'n mynegi'r berthynas gilyddol rhwng llywodraeth a busnes sy'n sbarduno buddsoddi cyhoeddus sydd â diben cymdeithasol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod busnesau sy'n gofyn am fuddsoddiad yn dangos eu bod wedi ymrwymo i dwf cynhwysol, gwaith teg, sylw i iechyd, sgiliau a dysgu yn y gweithle a datgarboneiddio. Mae pedair thema benodol yn y Cynllun: darparu dull unigol o hybu cyflogaeth, tanlinellu'r cyfrifoldeb sydd gan gyflogwyr i gefnogi staff, cau bylchau sgiliau a pharatoi at newidiadau sylfaenol yn y farchnad lafur.

Darlun Data: Cyfraddau cyflogaeth

Mae'r ffigurau'n dangos bod y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru wedi gwella'n fawr dros y cyfnod ers datganoli, gyda chyfradd cyflogaeth o 74.8% ar gyfer y cyfnod rhwng Mai a Gorffennaf 2018.

Cyfradd cyflogaeth y boblogaeth 16 i 64 oed: 1999 i 2018



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu, y Swyddfa Ystadegau Gwladol: https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket

Cyflogadwyedd

Mae Cynllun Cyflogadwyedd Cymru yn disgrifio sut y gellir helpu pobl i gynyddu eu sgiliau a sicrhau llwybr cydlynol at gyflogaeth a chynnydd yn eu gwaith. Mae rhaglenni cyflogadwyedd Cymru, Twf Swyddi Cymru, ReAct, Cymunedau am Waith, Cymunedau am Waith a Mwy, Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, ac eraill wedi helpu degau o filoedd o bobl i ddechrau gweithio dros y degawd diwethaf.

Cymru'n Gweithio yw'r gwasanaeth cynghori ar gyflogadwyedd i Gymru gyfan sy'n darparu cyngor a chyfarwyddyd unigol i helpu pobl i gael cyflogaeth.

Mae cynnig gofal plant Cymru yn darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i rieni cymwys sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Ciplun o weithgarwch

Mae pedwar sefydliad tai ym Mlaenau Gwent (Linc Cymru, Cartrefi Melin, Tai Calon ac United Welsh) ynghyd â Chyngor Blaenau Gwent, Canolfan Cydweithredol Cymru ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo wedi dod at ei gilydd i chwilio am gyfleoedd i gydweithio i gefnogi busnesau bach a chanolig. Mae bron 90% o'r busnesau sydd wedi'u lleoli ym Mlaenau Gwent yn gwmnïau bach iawn sy'n cyflogi llai na naw o bobl. Maent yn ceisio deall yr asedau y mae cymdeithasau tai yn eu cyfrannu i economi sylfaenol Gwent a dangos lle y byddai mwy o gydweithredu rhwng cymdeithasau tai ac eraill yn gallu creu cyfleoedd yn yr economi sylfaenol.

Gwaith Teg yng Nghymru

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos mai'r incwm gwario cyfartalog y pen yng Nghymru yw £15,835[i], tua 80 y cant o'r gwerth yn y DU gyfan. Mae Cymru wedi ymrwymo i ddileu'r bwlch o ran diweithdra ymysg pobl o oedran gweithio, a chyfraddau anweithgarwch economaidd rhwng Cymru a'r cyfartaledd ar gyfer y DU, o fewn 10 mlynedd. Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd yn amlinellu'r camau y bydd Cymru'n eu cymryd i helpu pobl i gael swyddi addas a rhoi'r sgiliau cywir iddynt er mwyn symud ymlaen. Bydd yn adeiladu ar sail y rhaglenni cyflogadwyedd cymunedol, a fydd yn darparu mentora a chymorth dwys i gynnwys cyfranogwyr a delio â'r rhwystrau cymhleth i gyflogaeth sy'n wynebu'r rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur.

Mae Cymru'n gefnogol iawn i fesurau sy'n cynyddu incwm yr aelwyd, ac mae'n parhau i hyrwyddo mabwysiadu'r Cyflog Byw Sylfaenol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i hachredu'n gyflogwr Cyflog Byw er 2015 ac mae'r GIG yng Nghymru wedi talu'r cyflog byw ers Ionawr 2015. Mae graddfeydd cyflog awdurdodau lleol yn dechrau ar lefel uwch na'r Cyflog Byw Sylfaenol.

Sicrhau gwaith teg i bawb yw un o'r agweddau pwysicaf ar yr ymdrech yng Nghymru. Yn 2019 cafwyd adolygiad gan Gomisiwn Gwaith Teg annibynnol Cymru o nifer o ysgogiadau deddfwriaethol, economaidd ac eraill i helpu i droi Cymru'n gymdeithas sy'n decach ac yn fwy cyfartal a chyfiawn. Cyflwynodd y Comisiwn ei adroddiad ym mis Mai ac mae'n cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Gweithredu i sicrhau dysgu effeithiol

Mae Cymru'n sicrhau canlyniadau addysgol cadarnhaol i blant a phobl ifanc hyd at ddiwedd cyfnod yr oedran addysg orfodol, yn 16 mlwydd oed. Mae canlyniadau wedi gwella, ac mae canran y disgyblion sy'n sicrhau pum gradd A*-C mewn ysgol uwchradd, yn cynnwys mathemateg a Chymraeg / Saesneg wedi codi o ychydig mwy na 4 ym mhob 10 o ddisgyblion yn 2007 i 6 ym mhob 10 o ddisgyblion yn 2016.

Yn 2018, yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 i 4 roedd cyflawniadau gan ferched yn well na'r rheini gan fechgyn. (Datganiad Ystadegol Ionawr 2019). Mae'r ffigur hwn wedi'i adlewyrchu ar y lefel trydyddol lle'r oedd 17% yn fwy o fenywod nag o ddynion wedi ennill cymwysterau gradd yng Nghymru yn 2017/18[ii], ac roeddent yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn rhaglenni prentisiaeth[iii]

Mae Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl yn crynhoi'r diwygiadau addysgol sydd eu hangen i sicrhau bod cwricwlwm newydd Cymru yn cael ei weithredu'n effeithiol. Mae'n gwneud defnydd o'r arfer gorau ar lefel ryngwladol ac arbenigedd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ar berfformiad addysg.

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng 'pedwar diben' y cwricwlwm newydd a'r Nodau Rhyngwladol. Maen nhw'n ceisio sicrhau:

- Dysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- Cyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.
- Unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.
- Dinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd.

Dysgu drwy chwarae

Mae hawl gan yr holl blant 3 a 4 blwydd oed yng Nghymru i gael addysg gynnar drwy raglen feithrin y Cyfnod Sylfaen. Seiliwyd y Cyfnod Sylfaen ar ddysgu drwy chwarae, gan fod tystiolaeth yn dangos bod hwn yn ddull effeithiol sy'n gallu helpu plant i ddatblygu ac ehangu eu sgiliau iaith a chyfathrebu. Mae tua 6 ym mhob 10 o ddisgyblion 4 oed ar gam datblygiad mewn mathemateg, iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Saesneg a fyddai'n gyson â'u hoed, neu'n uwch nag ef, yn ôl y fframwaith. Mae tua 9 ym mhob 10 o ddisgyblion o fewn un cam datblygiad i hwnnw sy'n gyson â'u hoed.[iv]

Anghenion dysgu ychwanegol

Mabwysiadwyd deddfwriaeth newydd ar anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru ar gyfer plant a phobl ifanc 0-25 oed yn rhan o raglen drawsnewid ehangach.

O dan y system newydd, bydd y cynllunio'n hyblyg ac ymatebol, bydd gweithwyr proffesiynol medrus yn adnabod anghenion ac yn rhoi strategaethau ar waith i helpu dysgwyr i drechu'r rhwystrau i'w dysgu, drwy ganolbwyntio ar y dysgwr. Mae'r diwygiadau hyn wedi'u cynllunio drwy gydweithio ac mae rhanddeiliaid yn chwarae rhan allweddol wrth eu datblygu.

Darlun Data: Y boblogaeth o oedran gweithio sydd â chymhwyster ar lefel 4 neu'n uwch

Mae proffil cymwysterau poblogaeth Cymru wedi gwella dros amser. Mae cyfran y boblogaeth o oedran gweithio sydd â chymhwyster o fewn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW) neu ar lefel uwch wedi cynyddu o 28% yn 2008 i 37% yn 2017.[v] O ran y cymwysterau uchaf sydd gan y boblogaeth o oedran gweithio, mae benywod yn fwy tebygol o ddal cymwysterau ar Lefel 4 neu'n uwch (addysg uwch neu lefel gyfatebol) (40 y cant o fenywod, o'i gymharu â 35 y cant o wrywod).

Y ganran o boblogaeth oedran gweithio Cymru (18 i 64 oed) sydd â chymhwyster ar lefel 4 neu'n uwch: 2008 i 2017

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Addysg dechnegol, alwedigaethol a thrydyddol

Mae'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg yn cynnig ymyrraeth uniongyrchol os yw bwlch sgiliau yn cyfyngu ar dwf y cyflogwr. Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, mae'r rhaglen wedi helpu 61 o gyflogwyr i gwrdd â'u hanghenion wrth ddatblygu eu gweithlu. Credir bod hyn wedi gwella lefelau sgiliau 4,000 o gyflogeion.

Mae rhaglen Prentisiaethau Cymru yn codi proffil hyfforddiant mewn swydd ac mae ar y trywydd iawn i allu creu 100,000 o gyfleoedd cyflogaeth drwy brentisiaethau erbyn 2021, gan sicrhau sylw i sectorau twf er mwyn hybu lefelau cynhyrchiant yn y sector STEM ac mewn sectorau technegol.

Ciplun o weithgarwch

Mae **llwybr cyflogaeth Rhondda Cynon Taf** yn helpu pobl i ddatblygu sgiliau yn unol â sectorau twf ac anghenion cyflogwyr lleol, ac yn cynnig cyfleoedd sy'n cynnwys y cynlluniau i Brentisiaid a Graddedigion, profiad gwaith a lleoliadau ar lefelau gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys interniaethau mewn prifysgolion, er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc sy'n gadael gofal y cyngor drwy'r rhaglenni 'Care2work' a 'Step in the Right Direction'.

Caffael

Mae'r polisi Budd i'r Gymuned yn defnyddio caffael cyhoeddus i greu swyddi ac yn darparu hyfforddiant i bobl sy'n wynebu anfantais. Mae'n hyrwyddo ymgysylltu â'r gymuned fel gofyniad mewn contractau er mwyn cefnogi mentrau cymunedol, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig. Erbyn Ebrill 2019, roedd gofynion o ran Budd i'r Gymuned wedi'u cynnwys mewn 536 o gynlluniau caffael cyhoeddus sydd wedi creu 2,477 o gyfleoedd cyflogaeth, 1,132 o brentisiaethau a 103,743 o wythnosau hyfforddi i bobl sydd wedi'u recriwtio o dan drefniadau Budd i'r Gymuned.

O fis Medi 2018, bydd myfyrwyr cymwys sy'n dilyn cwrs gradd am y tro cyntaf yn cael cymorth ariannol at eu costau byw o ddydd i ddydd yn ystod y tymor, ble bynnag y byddant yn derbyn eu haddysg yn y DU. Cyflwynwyd pecyn cyllid ar gyfer

astudio at radd Meistr, yn debyg i hwnnw sydd ar gael i israddedigion. Drwy ddarparu cymorth gwell, bydd mwy o bobl yn cael eu cymell i ennill cymwysterau ar y lefel hon, gan ddatblygu eu sgiliau a'u gyrfaoedd.

Ciplun o weithgarwch

Er mwyn hybu ymdrechion gan wirfoddolwyr ledled Cymru i greu gwlad ffyniannus a lle llewyrchus i fyw, sefydlwyd llwyfan digidol newydd ar gyfer gwirfoddoli **Gwirfoddoli Cymru**. Mae'r system newydd hon sy'n gweithredu o dan adain Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn galluogi gwirfoddolwyr i ddod o hyd i gyfleoedd a chofnodi eu horiau a'r sgiliau a ddysgwyd drwy wirfoddoli. Mae mwy na 3,000 o sefydliadau'n defnyddio'r llwyfan hwn yn barod.

Ymchwil wyddonol

Yn 2013, roedd 0.14% o ymchwilwyr y byd yng Nghymru ond roeddent yn cynhyrchu 0.3% o'r erthyglau a gyhoeddwyd drwy'r byd. Mae cyfeiriadau at erthyglau ymchwil a gynhyrchwyd yng Nghymru yn 0.49% o'r cyfanswm drwy'r byd, ac yn 0.7% o'r 1% o bapurau a grybwyllwyd amlaf. Mae hyn yn dangos pa mor effeithlon yw ymchwil yng Nghymru, ei heffaith a'r ffaith bod cyfran sylweddol o'r cynnyrch o'r radd flaenaf.[vi]

Yng Nghymru, mae rhaglen Sêr Cymru yn cynorthwyo mwy na 160 o ymchwilwyr rhagorol gan ddarparu cyllid o £100 miliwn. Mae'n gweithio gydag ysgolheigion blaenllaw ym mhrifysgolion Cymru, gan hybu llwyddiant ymchwil yng Nghymru a galluoedd technolegol, meddygol ac amgylcheddol y wlad. Drwy ddenu ymchwilwyr o'r radd flaenaf i fynd i'r afael â rhai o'r heriau pwysicaf yn y byd, mae Cymru'n sicrhau hefyd fod y rhaglen hon yn gynhwysol, drwy ofalu bod o leiaf 40% o ymchwilwyr Sêr Cymru yn fenywod, a bod yr holl ymchwilwyr yn dilyn hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod.

Ciplun o weithgarwch

Mae Canolfan Rhagoriaeth Rhanbarthol Cymru y CU (RCE Cymru) yn rhan o rwydwaith rhyngwladol o dan arweiniad y CU. Mae'n hwyluso cydweithio rhwng holl brifysgolion Cymru er mwyn ymchwilio, datblygu a hyrwyddo gwell dealltwriaeth o gynaliadwyedd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'n chwarae rhan ganolog mewn cyd-ddatblygu'r 'Gymru a Garem' yn gynaliadwy.

Mae RCE Cymru yn cael ei arwain gan y gymuned, yn rhannol gan Grŵp Cenedlaethau'r Dyfodol Prifysgolion Cymru.

Ynni carbon isel

Mae Cynllun Cyflawni Carbon Isel Cymru[vii] yn amlinellu'r uchelgais i sicrhau bod trydan carbon isel yn dod yn brif ffynhonnell ynni yng Nghymru. Mae ynni carbon isel a fforddiadwy yn amcan allweddol ar gyfer ffyniant yng Nghymru.

Yn 2017 roedd tua 22% o'r holl drydan a gynhyrchwyd yng Nghymru yn dod o ffynonellau adnewyddadwy.[viii] Mae Cymru'n allforio mwy o drydan nag y mae'n ei fewnforio. Amcangyfrifwyd bod y potensial cynhyrchu trydan mewn gweithfeydd ynni adnewyddadwy yn 2017 yn cyfateb i 48% o'r defnydd o drydan yng Nghymru.[ix]

Yng Nghymru, disgwylir y bydd y galw cyffredinol am bŵer yn tyfu o ganlyniad i drydaneiddio cynyddol mewn trafnidiaeth. O

2022 bydd trydaneiddio'n arwain at gyflwyno trenau deufodd a thri-modd ar Reilffyrdd Craidd y Cymoedd Metro De Cymru a fydd yn rhedeg ar bŵer trydan o linellau uwchben wedi'i ategu gan fatris. Bydd y trydaneiddio'n cael ei bweru'n llwyr gan ynni adnewyddadwy, a daw o leiaf 50% ohono o ffynonellau yng Nghymru, fel na fydd gwasanaethau'n cynhyrchu allyriadau o gwbl. Er mwyn sicrhau bod modd cwrdd â'r galw yn y dyfodol, bydd angen buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith cynhyrchu, trosglwyddo a dosbarthu ynni.

Mae Cymru wedi gosod targed hefyd ar gyfer sicrhau perchnogaeth leol ar 1 GW o'r gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru erbyn 2030; a disgwyliad y bydd rhywfaint o leiaf o berchnogaeth leol ar yr holl brosiectau ynni adnewyddadwy newydd o 2020. Yn 2018, cafwyd cais am dystiolaeth yng Nghymru am y manteision a'r heriau sydd ynglŷn â chynhyrchu mwy o ynni o dan berchnogaeth leol a chyrraedd y targed ar gyfer perchnogaeth leol ar 1 GW. Dangosodd fod cynyddu perchnogaeth leol ar allu i gynhyrchu ynni yng Nghymru yn debygol o gynyddu ffyniant.[x]

Ciplun o weithgarwch

Parc Solar Shotwick yw'r parc solar mwyaf yn y DU a gall gynhyrchu 72.2 MegaWat (MW). Mae ganddo linell breifat sy'n ei gysylltu'n uniongyrchol â Melin Bapur Shotton, sy'n gwrthbwyso tua un rhan o dair o'i alw blynyddol am drydan ac yn arbed tua 22,500 tunnell o garbon y flwyddyn. Mae hefyd yn gallu allforio 50 MW i'r grid. Datblygwyd y safle gan British Solar Renewables, We-Link Energy a Compton Group ac mae bellach yn eiddo i Foresight Group.

Mae cynllunio rhanbarthol a lleol ar ynni yn cael ei hyrwyddo er mwyn mabwysiadu cynhyrchu adnewyddadwy yn gynt yng Nghymru. Mae'r gwaith o sefydlu gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi cyflymu ac mae'r gallu o dechnolegau fel paneli solar wedi cynyddu dwywaith a mwy er 2014-16, a chafwyd cynnydd o 50% yn y gallu i gynhyrchu o dyrbinau gwynt ar y tir.[xi]

Darlun Data: Gallu Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy

Cynhyrchwyd yr hyn sy'n cyfateb i 48% o'r trydan a ddefnyddiwyd yng Nghymru o ffynonellau adnewyddadwy yn 2017, cynnydd oddi ar 37% yn 2015. Mae hon yn duedd hirdymor er 2007.

Twf yng nghanran y trydan a gynhyrchwyd o ffynonellau adnewyddadwy yng Nghymru: 2007 i 2017



Ffynhonnell: Cynhyrchu Ynni yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu tystiolaeth am adnoddau dichonol yng Nghymru ar gyfer ynni gwynt ar y tir ac ar y môr ac adnoddau solar ac mae'n ystyried goblygiadau'r gwaith hwn ar gyfer cynllunio gofodol a seilwaith.

Mae Cymru'n elwa o'i hadnoddau naturiol morol. Sefydlodd Cymru ddau barth arddangos sy'n cynnig cyfleoedd i dreialu dyfeisiau ynni tonnau a ffrwd lanw. Mae potensial yn y diwydiant hwn i gynnig ateb ar gyfer datgarboneiddio prosesau cynhyrchu ynni drwy'r byd. Mae eisoes yn darparu cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd difreintiedig ar arfordir Cymru.

Galwodd Cymru am droi ei sector cyhoeddus yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae hyn yn galw am ddarparu prosiectau ynni adnewyddadwy ac arbed ynni ar raddfa fawr yn y sector cyhoeddus. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried effaith carbon wrth ddyrannu cyllid cyfalaf. Mae'r holl adeiladau iechyd ac addysg newydd a ariennir drwy gyfalaf Llywodraeth Cymru yn cael eu dylunio a'u hadeiladu i gynyddu effeithlonrwydd ynni. Darperir cyllid ar yr amod bod prosiectau'n cael eu dylunio i sicrhau sgôr A ar dystysgrifau perfformiad ynni, ac achrediad rhagorol o dan Fethodoleg Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu er mwyn dangos eu bod yn gynaliadwy.

Lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi benthyciadau di-log o fwy na £60 miliwn ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru rhwng diwedd 2015 a dechrau 2018 a hefyd wedi helpu i sicrhau prosiectau ynni ac arbed ynni gwerth £27.5 miliwn ar ben hynny, lle y sicrhawyd cyllid o ffynonellau eraill. Amcangyfrifwyd bod yr arbedion carbon yng nghyfnod y gyllideb carbon bresennol yn unig yn agos i 53,000 o dunelli. Mae'r gwasanaeth mewn lle i allu cyrraedd targedau o dan achosion busnes o gyfanswm o 2.5 miliwn o dunelli o arbedion CO2 o ganlyniad i fesurau a osodir a bydd yn arbed mwy na £650 miliwn i'r sector cyhoeddus drwy osgoi costau ynni yn ystod oes yr asedau a osodir.

Mae nifer o fusnesau eisoes yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i arbed costau drwy dwf glân. Mae datgarboneiddio yn thema glir a chyson ym mhob rhan o'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, ac yn rhan bwysig o ddull Cymru o ddarparu cymorth uniongyrchol i fusnesau, yn cynnwys drwy Gronfa Dyfodol yr Economi. Er mwyn cael cymorth ariannol uniongyrchol drwy Gronfa Dyfodol yr Economi, bydd Llywodraeth Cymru yn asesu agwedd busnesau at reoli a lleihau eu hôl troed carbon, ac mae datgarboneiddio yn un o bum Maes Gweithredu sy'n ceisio targedu buddsoddi ar baratoi at y dyfodol.

Caethwasiaeth Fodern

Mae'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn amlinellu 12 egwyddor i sbarduno camau ar faterion fel tryloywder cadwyni cyflenwi, y Cyflog Byw Cenedlaethol a dileu caethwasiaeth fodern. Roedd 173 o sefydliadau wedi mabwysiadu'r Cod yn y ddwy flynedd cyntaf ar ôl ei gyflwyno.

Mae "Transparency in Supply Chains" (TISC) yn gronfa ddata ganolog lle y gellir gweld Datganiadau Caethwasiaeth Fodern a gyflwynwyd gan gyflenwyr. Noddir y wefan gan Lywodraeth Cymru ac mae'n gam tuag at ddileu caethwasiaeth fodern mewn cadwyni cyflenwi.

Ciplun o weithgarwch

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn sefydliad annibynnol sy'n eiddo i GIG Cymru ac yn cael ei gyfarwyddo ganddo. Mae'n darparu cynhyrchion a gwasanaethau i'r GIG yng Nghymru. Mae wedi mabwysiadu Ymrwymiadau Cydgynhyrchu, wedi datblygu Cynllun Gweithredu ac wedi penodi ei Chyfarwyddwr Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad yn Hyrwyddwr Cyflogaeth Foesegol.

Mae Grŵp Arwain Cymru ar Atal Caethwasiaeth yn darparu arweiniad strategol ar fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yng Nghymru ac ar ddarparu'r cymorth gorau posibl i oroeswyr, drwy gydgysylltu'r cydweithio rhwng sefydliadau partneriaid datganoledig a rhai sydd heb eu datganoli a sefydliadau'r trydydd sector, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddarparu atebion amlasiantaeth i atal caethwasiaeth. Mae'r Rhaglen Hyfforddi Atal Caethwasiaeth yn darparu cyrsiau o bob math ledled Cymru. Cymeradwywyd yr hyfforddiant o dan Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Cymru ac yn 2018 hyfforddwyd mwy na 10,000 o bobl yng Nghymru. Mae mwy o achosion yn cael eu cofnodi o ganlyniad i hybu ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth. Mae nifer y bobl a atgyfeiriwyd i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol wedi codi bob blwyddyn o 34 yn 2012 i 251 yn 2018.

Arferion cynaliadwy

Mae ôl troed ecolegol Cymru yn darparu asesiad o'r baich amgylcheddol cyfan sy'n gysylltiedig â defnyddio adnoddau yng Nghymru. Pe bai pawb yn y byd yn defnyddio'r un maint o adnoddau ar gyfartaledd â dinasyddion Cymru, byddai angen adnoddau biolegol 2.5 o blanedau fel y Ddaear i ddarparu digon o adnoddau a chymryd y gwastraff ohonynt. Mae nod Llywodraeth Cymru o sicrhau ein bod yn 'Byw fel Un Blaned' o fewn oes cenhedlaeth yn galw am leihau'r effeithiau o ddefnyddio adnoddau yng Nghymru o tua dwy ran o dair.[xii]

Mae Cymru'n defnyddio nifer o wahanol fesurau i gymell ymddygiadau cynaliadwy. Hyrwyddir arferion caffael cynaliadwy da drwy'r 10 egwyddor yn Natganiad Polisi Caffael Cymru i gynyddu effaith y gwariant blynyddol o £6bn ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru. O ganlyniad i hyn, roedd cyflenwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru wedi ennill 52% o'r gwariant blynyddol hwn yn 2018, ffigur sydd wedi codi o 35% yn 2004.

Mae'r Asesiad Risg Cynaliadwyedd yn sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael ei drafod ar y cam cynllunio. Mae'r asesiad hwn yn ofynnol ar gyfer yr holl gaffael sy'n fwy na £25,000 ac fe'i defnyddir i adnabod a lliniaru risgiau i gynaliadwyedd a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i sicrhau cynaliadwyedd.

Ciplun o weithgarwch

Ailddefnyddio Dodrefn ym Merthyr Tudful Bydd dodrefn a anfonwyd o'r blaen ar gyfer Troi Gwastraff yn Ynni yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu. Drwy ddelio â deunyddiau fel hyn, ceir defnydd mwy cynaliadwy o ddeunyddiau crai, ac mae ailddefnyddio/ailgylchu dodrefn a ddefnyddiwyd yn ffordd fwy costeffeithlon i'w trin. Bydd y prosiect hwn hefyd yn darparu dodrefn rhatach i ddeiliaid tai yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae Croeso Cymru wedi datblygu nifer o raglenni ac offer yn y blynyddoedd diwethaf i geisio helpu cyrchfannau a busnesau unigol i ddod yn fwy cynaliadwy. Mae Cadw, gwasanaeth

amgylchedd hanesyddol Cymru, wedi bod yn integreiddio'r arferion gorau ar leihau carbon yn yr eiddo sydd o dan ofal Gweinidogion Cymru ac yn yr amgylchedd hanesyddol ehangach.

Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gyflwyno isafswm tâl o 5c am yr holl fagiau siopa untro. Mae'r defnydd ohonynt wedi lleihau'n sylweddol o ganlyniad i'r polisi hwn. Yn 2018, roedd Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) yn sicrhau bod y gost i'r amgylchedd o waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yn cael ei phennu ac yn cymell mwy o gamau i atal, ailddefnyddio, ailgylchu ac adennill gwastraff. Telir y dreth ar sail pwysau wrth waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau ar gyfer codi treth ar warediadau gwastraff sydd heb eu hawdurdodi, sy'n ataliad ariannol i bobl sy'n ceisio gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon.

Mae strategaeth gwastraff Cymru Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn egluro sut bydd Cymru'n delio â gwastraff mewn ffordd sy'n creu buddion i'r amgylchedd a hefyd i economi Cymru ac i lesiant pobl yng Nghymru.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod y strategaeth ar gyfer creu economi fwy cylchol yng Nghymru. Yn ddiweddarach eleni, ymgynghorir ar Strategaeth Effeithlonrwydd Adnoddau newydd a Thrywydd Economi Gylchol a fydd yn amlinellu'r camau nesaf i sicrhau dyfodol diwastraff erbyn 2050.

Darlun Data: Ailgylchu gan Aelwydydd yng Nghymru

Mae cynnydd mewn ailgylchu yn fodd i gyflawni nod Cymru o ddod yn wlad ddiwastraff. Cymru yw'r drydedd orau o holl wledydd y byd am ailgylchu gan aelwydydd, gan fod cyfraddau ailgylchu awdurdodau lleol wedi codi o 60% yn 2015/16, i 64% yn 2016/17.

Canran gwastraff trefol yr awdurdodau lleol (preswyl ac amhreswyl) a baratowyd i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio: 2012-13 i 2016-17



Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Ciplun o weithgarwch

Bydd y fenter 'Adeiladu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol' mewn cydweithrediad ag Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru a'r Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r dyfodol, yn galw am newidiadau llesol mewn arferion ac am fabwysiadu holl egwyddorion yr economi gylchol er mwyn ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Cymru wedi gwneud cynnydd da hefyd yn y blynyddoedd diwethaf ar leihau maint y bwyd sy'n cael ei daflu'n ddiangen. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno cynllun lwfansau tirlenwi i leihau maint y gwastraff trefol pydradwy a anfonir i safleoedd tirlenwi. Mae casgliadau gwastraff bwyd wythnosol ar gael i 99% o'r aelwydydd yng Nghymru ac mae'r rhain yn dargyfeirio symiau mawr o wastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi. Mae ffigurau'n dangos bod maint y gwastraff bwyd o aelwydydd yng Nghymru wedi lleihau 12% y pen rhwng 2009 a 2015.

Cymru Gydnerth

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30	31	32	33	34	35
36	37	38	39	40	41	42
43	44	45	46			

Nod Datblygu Cynaliadwy

Cymru Gydnerth

Fframweithiau i warchod ecosystemau

Arwynebedd tir Cymru yw 2,078,224 hectar[xiii], ac mae'n cynnal diwydiant amaethyddol ac yn gynefin i amrywiaeth o fywyd gwyllt. Mae adnoddau naturiol Cymru yn sylfaen i'w llesiant a'i ffyniant, ei hiechyd, ei diwylliant a'i hunaniaeth. Drwy ddeddfu, mae wedi ymgorffori bioamrywiaeth a rheoli adnoddau naturiol mewn polisi, er mwyn mabwysiadu ffyrdd mwy cynaliadwy o reoli ein hadnoddau naturiol a lleihau ôl troed ecolegol Cymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn sicrhau bod adnoddau naturiol ac ecosystemau yn gydnerth a'u bod yn gallu darparu buddion yn awr ac at y dyfodol. Er hynny, bu'r cynnydd yn araf. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol[xiv], a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn dangos, er gwaethaf rhai tueddiadau cadarnhaol, fod amrywiaeth fiolegol yn dirywio, ac nad oes yr un ecosystem yng Nghymru ar hyn o bryd sy'n dangos holl briodweddau cydnerthedd, ac mae hyn yn effeithio ar allu ecosystemau i ddarparu buddion.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r polisi ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn adlewyrchu'r ymrwymiad gan Gymru i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd ragweithiol, gynaliadwy a chydgysylltiedig. Mae'r ffyrdd hyn o weithio yn unol â'r bwriad o gyflawni'r nodau ac amcanion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn pennu blaenoriaethau Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys: darparu atebion seiliedig ar natur; cynyddu effeithlonrwydd adnoddau ac ynni adnewyddadwy; a mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar leoedd. Drwy wneud hyn, mae Cymru yn sicrhau bod y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn rhan hefyd o ddulliau darparu lleol.

Mae Cynllun Adfer Natur Cymru yn ceisio ymgysylltu a hybu cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn cynnwys bioamrywiaeth mewn penderfynu o bob math ar bob lefel. Mae'n ceisio diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella'r dull o'u rheoli, a chyfnerthu amgylchedd naturiol Cymru drwy adfer cynefinoedd a ddiraddiwyd a chreu cynefinoedd.

Ciplun o weithgarwch

Mae rhaglen Ysgolion Llysgennad Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ceisio helpu ysgolion yn y Parc Cenedlaethol a'i gyffiniau i fanteisio i'r eithaf ar yr awyr agored ar gyfer dysgu. Mae'n rhoi cyfle i ddisgyblion ac athrawon fynd â'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn yr ystafell ddosbarth allan i'r amgylchedd, gan roi profiadau ymarferol gwerthfawr i ddisgyblion.

Coetiroedd a Mawndiroedd

Mae strategaeth Coetiroedd i Gymru yn amlinellu'r ymrwymiad i reoli mwy o goetiroedd Cymru, i'w heangu a'u gwneud yn fwy cydnerth fel y gallant ddarparu mwy o fuddion i bobl Cymru. Yn y gorffennol, roedd wedi mabwysiadu targed ar gyfer plannu coed ar 100,000 hectar yn y cyfnod

2010-30. Nid oedd y cyfraddau plannu yn saith mlynedd cyntaf y cyfnod hwnnw ond wedi cyrraedd rhan fach o'r 5,000 hectar y flwyddyn sydd eu hangen. Er hynny, mae Cymru yn bwriadu codi'r gyfradd plannu coed i o leiaf 2,000 hectar y flwyddyn, a'i gynyddu i 4,000 hectar y flwyddyn cyn gynted â phosibl. Mae Cymru'n datblygu amlinelliad o weledigaeth y Prif Weinidog ar gyfer coedwig genedlaethol. Byddai coedwig genedlaethol yn gallu cyflymu ailgoedwigo a darparu buddion economaidd ac amgylcheddol pwysig.

Ciplun o weithgarwch

Mae Plant! yn rhaglen gydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru, Coed Cadw a Cyfoeth Naturiol Cymru a lansiwyd yn 2008. Ei nod yw plannu coeden am bob plentyn a gafodd ei eni neu ei fabwysiadu yng Nghymru ers hynny. Hyd yma, plannwyd mwy na 320,000 o goed llydanddail (ar fwy na 147 hectar) ledled Cymru. O 1 Ebrill 2014 estynnwyd yr ymrwymiad i gynnwys plannu coeden ychwanegol yn Uganda am bob plentyn.

Arwynebedd cyfan y pridd mawnog yng Nghymru yw tua 90,995 hectar (4.3%).[xv] Mae mawndiroedd Cymru wedi'u difrodi a'u diraddio o ganlyniad i ddraenio, newid mewn defnydd tir, pori amhriodol, llosgi a llygredd aer. Er bod y dystiolaeth ddiweddaraf yn dangos rhai tueddiadau cadarnhaol mewn perthynas â mawndiroedd Cymru, amcangyfrifwyd bod mwy na 70% o fawndiroedd wedi'u haddasu a'u diraddio.[xvi] Mae hyn wedi amharu ar eu gallu i ddarparu nifer o wahanol wasanaethau ecosystemau.

Mae Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn plannu coed ac mewn mawndiroedd, gan gydnabod eu buddion i lesiant, ac mae wedi ymrwymo i gynyddu'r ddalfa Defnyddio Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2030 drwy leihau'r carbon a gollir gan fawndiroedd a chynyddu storfeydd carbon mewn biomas.

Ciplun o weithgarwch

Mae rhaglen Cynllun Rheoli Cynaliadwy Cymru yn ariannu nifer o brosiectau gwahanol sy'n cynnwys elfen mawndir. Y mwyaf o'r rhain yw'r prosiect Gwireddu Cyfalaf Naturiol Mawndiroedd Cymru o dan arweiniad Parc Cenedlaethol Eryri. Mae cylch gwaith y prosiect hwn yn eang iawn ac yn cynnwys gwaith adfer yn y maes a datblygu ceisiadau am gymorth o daliadau am wasanaethau ecosystemau drwy fecanwaith y Cod Mawndiroedd.

Rheoli a diogelu ecosystemau'r môr a'r glannau

Dŵr yw un o asedau naturiol mwyaf Cymru ac mae'n rhan annatod o ddiwylliant, treftadaeth a hunaniaeth genedlaethol Cymru.

Mae amgylchedd morol ac arfordirol Cymru yn cynnal buddiannau cymdeithasol, busnes a chadwraeth ac yn cwmpasu unig Barc Cenedlaethol arfordirol y DU yn Sir Benfro, yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf ar arfordir y DU (Gŵyr), ac Afon Menai yn y gogledd sy'n enwog drwy'r byd ac yn gartref i Halen Môn Anglesey Sea Salt. Felly mae'n hanfodol ei fod yn parhau i gael ei warchod a'i reoli'n dda.

Drwy gydweithio â rhanddeiliaid eraill yng Nghymru a'r DU, mae Cymru wrthi'n datblygu polisïau cynllunio strategol yn y

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru cyntaf erioed sy'n cwmpasu'r glannau a'r môr mawr. Gan edrych ymlaen dros 20 mlynedd, mae'n darparu canllawiau ar yr holl benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal forol. Mae'n ceisio rheoli galwadau cynyddol am ddefnyddio'r amgylchedd morol; cefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy'r sectorau morol; a chynnwys ystyriaethau o ran cymdeithas a diogelu'r amgylchedd mewn penderfyniadau. Drwy wneud hyn, mae'n cefnogi cymunedau arfordirol ar y lefel leol ac yn hybu twf economaidd cenedlaethol mewn ffordd gynaliadwy.

Mae Strategaeth Forol y DU yn egluro sut bydd Cymru'n cyrraedd neu'n cadw Statws Amgylcheddol Da gan ddilyn cylch chwe blynedd. Mae'n amlinellu targedau strategol allweddol ac, yn fwy penodol, ei huchelgeisiau ar gyfer sicrhau Statws Amgylcheddol Da yng Nghymru, sydd wedi'u nodi yn y rhaglen fesurau. Drwy gymryd y camau hyn, bydd amgylchedd morol Cymru'n parhau'n gynhyrchiol a chydnerth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o iechyd, cyflwr a chydnerthedd ei moroedd, mae Cymru hefyd yn cydweithio â phartneriaid i ddatblygu rhaglen fforddiadwy a seiliedig ar flaenoriaethau i fonitro bioamrywiaeth forol.

Atal llygredd morol a'i leihau'n sylweddol

Mae Cymru'n bwriadu cymryd rhan flaenllaw yn ymgyrch Moroedd Glân y CU. Yn 2017, daeth nifer o wahanol sefydliadau cadwraeth a chyrff anllywodraethol, fel Cadw Cymru'n Daclus a'r Gymdeithas Cadwraeth Forol, at ei gilydd i ffurfio'r Bartneriaeth Moroedd Glân, a gydweithiodd i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Sbwriel Môr cyntaf i Gymru. Mae'r Cynllun wedi'i seilio ar egwyddorion craidd sy'n ymwneud ag atal, cydweithredu ac atebion tymor hir ac mae'n amlinellu camau cadarnhaol i helpu i leihau sbwriel a'i atal rhag cyrraedd yr amgylchedd morol a bydd o gymorth i sicrhau Statws Amgylcheddol Da.

Ciplun o weithgarwch

Roedd yr ardal forol yn thema allweddol yng Nghymru yn 2018 gan mai "Blwyddyn y Môr" oedd y thema genedlaethol ar gyfer twristiaeth, a'i bod yn 30 mlynedd ers cyflwyno gwobrau'r Faner Las yng Nghymru, yn 25 mlynedd ers sefydlu ymgyrch glanhau traethau'r Gymdeithas Cadwraeth Forol, a Ras Cefnfor Volvo wedi'i chroesawu i Gaerdydd gan dynnu sylw at lygredd yn y môr.

Pysgodfeydd cynaliadwy

Bydd ymrwymiad i gadernid ecosystem y môr yn ystyriaeth allweddol wrth lunio polisi rheoli pysgodfeydd ar gyfer Cymru yn y dyfodol, gan greu fframwaith sy'n diogelu ac yn cael budd o stociau pysgod sy'n cael eu rheoli'n gynaliadwy.

Bwriad Cymru yw gwella mesurau pysgota cynaliadwy hirdymor drwy wneud y canlynol: lleihau'r darnio ar y sector; rhoi mwy o gyfrifoldeb i bysgotwyr dros amgylchedd yr arfordir; a gwella trefniadaeth a chynrychiolaeth y sector. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Cynllun Tystiolaeth Pysgodfeydd ac mae gwaith ar y gweill i asesu cyflwr yr wybodaeth wyddonol ynglŷn â rhywogaethau a stociau pwysicaf Cymru.

Bydd y bylchau mewn data biolegol ac ecolegol a data am bysgodfeydd a ganfyddir drwy'r cynllun hwn yn cael eu datrys drwy arolygon, asesiadau a dadansoddiadau. Mae

Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r diwydiant pysgod i archwilio'r materion hyn yn fanylach, a bydd yn adolygu'r mentrau a roddir ar waith er mwyn sicrhau pysgota cynaliadwy hirdymor na fydd yn cael effaith negyddol ar amgylchedd y môr.

Er nad yw hi'n debygol y daw ardaloedd newydd sydd heb eu pysgota i'r golwg, a hynny oherwydd yr hanes hir o bysgota yng Nghymru, mae'n bosibl y bydd amodau naturiol neu newid yn yr hinsawdd yn golygu y daw stociau newydd yn doreithiog yn ystod y blynyddoedd i ddod. Bydd y gwaith cynllunio yn canolbwyntio ar wella cryfder economaidd diwydiant pysgod Cymru, cynaliadwyedd hirdymor stociau pysgod cregyn allweddol a - dros amser drwy negodi cyfran fwy o stociau - arallgyfeirio at rywogaethau sefydledig eraill.

Gwarchod ardaloedd y môr a'r glannau

Mae 139 o Ardaloedd Morol Gwarchodedig (AMG) yng Nghymru, sy'n cynnwys 69% o ddyfroedd glannau Cymru a 50% o holl foroedd Cymru, sy'n fwy o lawer na'r targed o 10%. Gan fod eu cwmpas mor eang, mae Cymru wedi ymrwymo i ddarparu rhwydwaith o AMG o dan reolaeth dda ac mae'n canolbwyntio ar gynnal a gwella cyflwr y rhwydwaith. Er mwyn cyflawni hyn, mae rheolaeth yr AMG yn dilyn gweledigaeth hirdymor a gytunwyd ac amcanion o dan 'Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru 2018-2023'. Mae Cynlluniau Gweithredu Blynyddol yn pennu camau gweithredu strategol ar sail blaenoriaethau i'w cyflawni gan awdurdodau rheoli sydd â chyfrifoldebau statudol mewn perthynas ag AMG. Yn ddiweddar, mae Cymru wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i bennu Parthau Cadwraeth Morol dichonol yn ardaloedd glannau a môr mawr Cymru a fydd yn gallu llenwi'r nifer bach o fylchau yng nghydlyniant ecolegol y rhwydwaith AMG. Bydd yn parhau i gyflawni'r ymrwymiad hwn drwy ddefnyddio'r cyfuniad o bwerau sydd ar gael drwy Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a'r gwahanol Reoliadau sy'n gweithredu'r Gyfarwyddeb Adar a Chynefinoedd.

Ciplun o weithgarwch

Mae Prosiect Maelgwn Cymru yn casglu data i gael gwell dealltwriaeth o statws ac ecoleg y maelgi, siarc o rywogaeth sydd mewn perygl difrifol ac a oedd yn gyffredin ar un adeg yn nyfroedd Cymru a holl barthau gorllewinol Ynysoedd Prydain. Cynhelir arolygon o faelgwn gan nofwyr tanddwr a snorcelwyr drwy drefniant gwyddoniaeth dinasyddion i gasglu data mewn ardaloedd allweddol. Drwy gydweithio â physgotwyr ac ymgysylltu â'r cyhoedd, ceir anogaeth i roi gwybod am y maelgwn a welir a rhoddir canllawiau i bysgotwyr ar ffyrdd diogel i ryddhau'r rhywogaethau gwarchodedig hyn os cânt eu dal yn ddamweiniol. Bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth o nifer y maelgwn yn nyfroedd Cymru a'u lleoliad. Bydd y prosiect ymchwil 'Hanes Maelgwn' yn casglu ac yn dehongli gwybodaeth am dreftadaeth forol gyfoethog Cymru a'i chysylltiad ag un o'r siarcod prinnaf yn y byd.

Polisïau ar yr hinsawdd

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod targed ar gyfer lleihau allyriadau o leiaf 80% erbyn 2050 ynghyd â fframwaith cyllidebu carbon sydd â chylchoedd adrodd pum mlynedd. Yn 2020, bydd Llywodraeth Cymru yn gosod rheoliadau gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i godi'r targed presennol ar gyfer 2050 i 95% ac i newid targedau interim a

chyllidebau carbon Cymru yn ôl yr angen. Yn Rhagfyr 2018, pasiwyd rheoliadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i osod targedau interim (ar gyfer 2020, 2030 a 2040) a dwy gyllideb carbon gyntaf Cymru. Mae'r cynllun cyflawni Ffyniant i bawb: Cymru carbon isel a lansiwyd ym Mawrth 2019 yn amlinellu sut bydd Cymru yn cwrdd â'i chyllideb carbon gyntaf (2016-2020). Mae'r cynllun yn nodi 100 o bolisïau a chynigion, wedi'u dyrannu i'r holl bortffolios, sy'n dangos cydymrwymiad y Cabinet i gyflymu'r newid i economi carbon isel yn y blynyddoedd nesaf. Datganwyd argyfwng hinsawdd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mai 2019 ac mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r targed ar gyfer 2050 yn dilyn datblygiadau yng ngwyddoniaeth yr hinsawdd.

Ymaddasu i newid hinsawdd

Mae Cymru newydd ymgynghori ar ei hail Gynllun Ymaddasu. Mae Cynllun Cyflawni cyntaf Cymru ar gyfer Ymaddasu yn rhan o Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. Fe'i cyhoeddwyd yn 2010 ac roedd yn gosod y sylfeini ar gyfer cam mawr tuag at sicrhau Cymru gydnerth. Er 2010, cafwyd cyflawniadau yng Nghymru sy'n cynnwys cyhoeddi a gweithredu strategaethau i reoli peryglon llifogydd ac erydu'r arfordir, cwblhau asesiadau effaith i ddeall effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd hanesyddol, a gweithredu cynllun tywydd poeth i Gymru.

Cymru Iachach

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30	31	32	33	34	35
36	37	38	39	40	41	42
43	44	45	46			

Nod Datblygu Cynaliadwy

CYMRU IACHACH

Yng Nghymru, mae'r gallu i fyw bywyd iach wrth wraidd llesiant cyffredinol pobl Cymru. Mae'n treiddio drwy agweddau cydgysylltiedig ar fywydau pobl, yn cynnwys eu ffyrdd o dyfu, dysgu, gweithio, rhyngweithio a heneiddio.

Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn adrodd eu bod mewn iechyd da yn gyffredinol, ac roedd 70% yn dweud bod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18. Er hynny, bydd y disgwyliad oes iach yn fyrrach ymysg pobl a anwyd i deuluoedd difreintiedig. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y bwlch disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae angen cyfuniad o ddulliau i fynd i'r afael ag achosion cymhleth a chydgysylltiedig anghydraddoldebau iechyd. Mae gweithredu ar anghydraddoldebau yn agwedd allweddol ar nifer o wahanol bolisïau a rhaglenni, yn cynnwys camau sylfaenol i helpu pobl i ymdopi, targedu camau i ddelio ag ymddygiadau afiach, a gwella mynediad at ofal iechyd.

Mae iechyd a llesiant da yn dibynnu ar fwy na darparu gwasanaethau iechyd da. Hyrwyddir yr egwyddor hon drwy gynllun hirdymor Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, 'Cymru Iachach' – gweledigaeth hirdymor ar gyfer dull system gyfan o drafod iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n cynnwys mwy o bwyslais ar ddulliau hybu iechyd ac atal afiechyd.

Darlun Data: Disgwyliad Oes

Mae'r disgwyliad oes wedi codi 2.8 blynedd ymysg dynion a 2.2 blynedd ymysg menywod ers y cyfnod rhwng 2001 a 2003, ac mae'r bwlch rhwng disgwyliad oes gwrywod a benywod yn cau. Roedd merch a anwyd yng Nghymru rhwng 2015 a 2017 yn gallu disgwyl byw tan ei phen blwydd yn 82 a bachgen yn gallu disgwyl byw tan ei ben blwydd yn 78.



Ffynhonnell: Adroddiad Llesiant Cymru 2017/18
Disgwyliad oes ar enedigaeth yn ôl rhyw: 2001-03 i 2014-16

Ciplun o weithgarwch

Lansiwyd y fenter **'Destination NHS'** drwy gydweithio rhwng Coleg Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Phrifysgol Abertawe ym Medi 2017. Mae'n fenter ar gyfer myfyrwyr lleol o Gymru sy'n 16-18 oed ac yn ceisio cynnig cyfleoedd gyrfa uchelgeisiol yn y gwasanaeth iechyd, yn cynnwys cynnig o 100 o oriau o brofiad gwaith.

Darlun Data: Disgwyliad Oes Iach

Rhwng 2010 a 2014, roedd y disgwyliad oes iach (blynyddoedd o iechyd da) ymysg gwrywod yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn 18.7 blynedd yn fwy nag ar gyfer y rheini yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, ac roedd yn 18.2 blynedd yn fwy ymysg menywod.

Y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes iach rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig: 2005- 2009 o'i gymharu â 2010 -2014



Llesiant ac Ymddygiadau Iach

Gordewdra yw un o'r prif achosion pryder o ran iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae bron chwarter ein hoedolion a 12.4% o blant yn ordew.[xvii] Mae achosion gordewdra yn gymhleth a phersonol. Bydd 'Pwysau Iach: Cymru Iach' yn amlinellu uchelgais Cymru i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar arweinyddiaeth, creu amgylcheddau a lleoliadau iach, a chynnig cyfleoedd ac ysbrydoli pobl i gyrraedd a chadw pwysau corff iach.

Mae cyfraddau ysmygu[xviii] a nifer y marwolaethau y gellir eu priodoli i ysmygu wedi gostwng. Er hynny, tybaco yw prif achos unigol marwolaethau cyn pryd yng Nghymru o hyd ac mae'n cyfrannu'n helaeth at anghydraddoldebau iechyd, mewn tua un ym mhob chwech o'r holl farwolaethau ymysg pobl sy'n 35 oed neu'n hŷn.[xix] Er mwyn helpu ysmygwyr i roi'r gorau iddi, gellir cyrraedd yr holl wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu mewn un pwynt cyswllt, 'Helpa Fi i Stopio'.

Darlun Data: Amcangyfrifon o Ganran y Bobl sy'n Ysmygu (Pobl 16+ oed)

Mae canran yr oedolion sy'n dweud eu bod yn ysmygu wedi lleihau'n raddol o 27.0% yn 2004/05 i 19.9% yn 2015. Bach oedd y newid a gafwyd mewn cyfraddau ysmygu rhwng 2016-17 a 2017-18.

Canran yr oedolion sy'n dweud eu bod yn ysmygwyr ar y pryd yn ôl blwyddyn (siart dalfan gyfredol)



Ffynhonnell: Adroddiad Llesiant Cymru 2017/18

Yn 2017, adroddwyd bod gostyngiad yng nghanran yr oedolion sy'n yfed mwy na nifer yr unedau o alcohol a argymhellir mewn wythnos, sef 18%, o'i gymharu â 20% yn 2016.[xx]

Un o brif gyflawniadau Cymru yw pasio Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018. Mesur wedi'i dargedu yw gosod isafbris am alcohol sy'n ceisio gostwng lefelau yfed peryglus a niweidiol.

Cafwyd 185 o farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yn 2017, gostyngiad o 4% oddi ar 2016.[xxi] Mesurau atal sydd wrth wraidd strategaeth Cymru ar gamddefnyddio sylweddau Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed. Cynigir gwasanaethau ar gyfer yr holl unigolion a theuluoedd, yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig.

Ciplun o weithgarwch: Mae DAN 24 | Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru

Mae **DAN 24: Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru** yn llinell gymorth ddwyieithog ddi-dâl sy'n darparu pwynt cyswllt unigol i bawb yng Nghymru sydd am gael rhagor o wybodaeth a/neu gymorth mewn perthynas â chyffuriau a/neu alcohol. Mae'r gwasanaeth ar gael 24 awr y diwrnod, 7 diwrnod yr wythnos ac mae'n helpu unigolion, eu teuluoedd, gofalwyr, a gweithwyr cymorth ym maes cyffuriau ac alcohol i gael gafael ar wasanaethau lleol a rhanbarthol priodol.

Mae canlyniadau o'r astudiaeth gyntaf yng Nghymru o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod[xxii] yn dangos bod dioddef pedwar neu ragor o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cynyddu'r tebygolrwydd o yfed risg uchel ymysg oedolion bedair gwaith, o fod yn ysmygwr chwe gwaith ac o fod yn gysylltiedig â thrais yn y flwyddyn ddiwethaf tua 14 gwaith. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael ag effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac wedi helpu Cymru Well Wales i sefydlu Canolfan Gymorth i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol y profiadau hyn.[xxiii]

Beichiogi yn yr arddegau

Roedd nifer yr achosion o feichiogi yn yr arddegau wedi cyrraedd y lefel isaf erioed yn 2016 ac maent wedi gostwng yn sylweddol er 2008. Mae'r gyfradd ar gyfer y rheini sy'n iau na 18 oed wedi gostwng o fwy na hanner dros y degawd diwethaf[xxiv] i 24.3 yn 2015 a 20.2 o fenywod dan 18 oed yn 2017.[xxv]

Pobl Hŷn

Dros yr 20 mlynedd nesaf, disgwylir y bydd canran y bobl dros 65 oed yng Nghymru yn codi o tua 20% i tua 25% o'r boblogaeth gyfan. Rhagwelir hefyd y bydd y boblogaeth sydd dros 75 oed yng Nghymru yn codi o 9% o'r boblogaeth yn 2014 i tua 13% yn 2030.

Ciplun o weithgarwch: 'Care Home As and Talk' (CHAaT)

Mae 'Care Home As and Talk' (CHAaT) yn wasanaeth gwirfoddol lle mae staff sydd wedi ymddeol o'r GIG yn ymweld yn wirfoddol â phobl hŷn ac agored i niwed mewn cartrefi gofal i'w holi am eu profiadau o ofal. Mae'n dangos sut mae egwyddor y Ddeddf ar gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei rhoi ar waith. Yn yr achos hwn, mae'n gwella iechyd meddwl derbynwyr y gwasanaethau. Cynlluniwyd gwasanaeth CHAaT gan bobl hŷn a'u perthnasau a'i nod yw gwella profiad yr henoed mewn cartrefi gofal a chynnig cyfle iddynt drafod problemau a phryderon gyda rhywun cyfeillgar.

Bydd y duedd hon yn arwain at fwy o alw am wasanaethau iechyd dros amser. Er enghraifft, rhagwelir y bydd cyfanswm y bobl yng Nghymru sy'n 65 oed neu'n hŷn a dderbynnir i'r ysbyty o ganlyniad i syrthio yn codi o 14,415 yn 2015 i tua 25,500 erbyn 2035. Mae disgwyl hefyd y bydd y nifer sy'n cael gwasanaethau preswyl, ac sy'n 65 oed neu'n hŷn, yn codi o 11,305 yn 2015 i 22,500 erbyn 2035[xxvi].

Mae gan Gymru weledigaeth ar gyfer dod yn genedl sy'n gyfeillgar i bobl â dementia sy'n cydnabod hawliau pobl â dementia er mwyn iddynt deimlo eu bod yn cael eu parchu a byw mor annibynnol â phosibl yn eu cymunedau, ac mae'n buddsoddi £10 miliwn y flwyddyn mewn camau i gefnogi unigolion â dementia a'u teuluoedd[xxvii].

Iechyd Meddwl

Yn 2016-17, derbyniwyd 8,723 o achosion i gyfleusterau iechyd meddwl yng Nghymru, cynnydd o 6% oddi ar 2015-16.[xxviii] Mae'r strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn ceisio gwella iechyd meddwl pawb yng Nghymru a bywydau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, a'u gofalwyr a'u teuluoedd, drwy gynnig gwahanol fathau o gymorth, yn cynnwys helpu pobl i deimlo'n well a rheoli eu hiechyd meddwl eu hunain a gwasanaethau i bobl sydd â salwch meddwl hirdymor difrifol.

Ciplun o weithgarwch: Tata Steel Wales

Mae Tata Steel Wales wedi addo diogelu a hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol ei weithwyr.

Yn rhan o'r fenter Zero Harm ar ei safle yn Nhrostre, cymerodd ran ym Mhrosiect Sir Gâr, prosiect arloesol ar gyfer sgrinio cardiofasgwlaidd, gan weithio ar y cyd â'r bwrdd iechyd GIG lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r prosiect yn canfod y rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o glefyd cardiofasgwlaidd ac yn cymryd camau i'w helpu. Dyfarnwyd gwobr i'r bartneriaeth hon am ragoriaeth mewn gwella iechyd a llesiant.
https://www.tatasteeleurope.com/en/sustainability/people/health-promotion

Marwolaethau oherwydd llygredd aer

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2017 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, amcangyfrifwyd bod modd priodoli'r hyn sy'n cyfateb i 1,604 o farwolaethau ymysg pobl 30+ blwydd oed i effaith $PM_{2.5}$ a'r hyn sy'n cyfateb i 1,108 o farwolaethau i effaith NO_2 bob blwyddyn.[xxix] Mae Cymru wedi cymryd camau rhagweithiol i ddelio ag ansawdd aer ac mae'r prif lygryddion mewn aer sy'n peryglu iechyd wedi lleihau'n raddol ers y 1990au.[xxx]

Ciplun o weithgarwch: Village Bakery

Mae un o'r cyflenwyr bwyd mwyaf yng Nghymru Village Bakery, sydd â'i safle ar Ystad Ddiwydiannol Wrecsam, wedi plannu "wal fyw" drawiadol o blanhigion bytholwyrdd ar uchder pedwar llawr yn ei swyddfeydd newydd, yn rhan o ddull ecogyfeillgar sy'n ceisio cyfrannu at amgylchedd iachach yng Nghymru. Mae'r wal yn cynnwys system casglu dŵr glaw sy'n bwydo system hydroponig i ddyfrio'r planhigion. Mae astudiaethau wedi dangos bod waliau byw yn gallu gwella ansawdd aer mewn ardaloedd trefol a lleihau llygryddion niweidiol o fwy na 40%.

The Data Picture: Air Quality

Darlun Data: Ansawdd Aer yng Nghymru

Mae ansawdd aer yng Nghymru wedi gwella'n fawr ers y 1970au yn bennaf o ganlyniad i reolaethau statudol ar allyriadau a dirywiad diwydiannau trwm. Er hynny, mae llygredd o ffynonellau eraill fel trafnidiaeth, amaethyddiaeth a gwresogi cartrefi yn peri mwy o bryder erbyn hyn.

Crynodiadau cyfartalog nitrogen deuocsid (NO_2) mewn µg /m^3



Ffynhonnell: Ansawdd aer: StatsCymru

Mae Cymru yn gwella ansawdd aer drwy Gronfa Ansawdd Aer o £20 miliwn, Fframwaith Parth Aer Glân drafft, a therfynau cyflymder dros dro ar rai ffyrdd i ddelio â mannau lle mae allyriadau ar eu gwaethaf. Mae Rhaglen Aer Glân Cymru yn ceisio lleihau'r baich ar iechyd pobl a'r amgylchedd naturiol o ganlyniad i ansawdd aer gwael a sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau ar ansawdd aer mewn deddfwriaeth Ewropeaidd a domestig

Cymru Sy'n Fwy Cyfartal

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30	31	32	33	34	35
36	37	38	39	40	41	42
43	44	45	46			

Nod Datblygu Cynaliadwy

CYMRU SY'N FWY CYFARTAL

Mae sicrhau Cymru sy'n fwy cyfartal yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae wedi cyflwyno dyletswyddau cydraddoldeb penodol ar gyfer cyrff cyhoeddus er mwyn gwella eu perfformiad a dangos eu bod yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus y DU. Mae'r rheoliadau'n gosod dyletswyddau ar y sector cyhoeddus datganoledig, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, sy'n ymwneud ag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, cyhoeddi ac adolygu Amcanion Cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol, ymgysylltu, gwahaniaethau cyflog, caffael, trefniadau adrodd a gwybodaeth am gydraddoldeb a chyflogaeth.

Ym Mawrth 2016, cyhoeddwyd Amcanion Cydraddoldeb Strategol diwygiedig gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos ei hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant. Mae'n adolygu'r rhain ar hyn o bryd ac yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad A yw Cymru'n Decach? a gyhoeddwyd yn 2018 gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mynd i'r afael â phob math o dlodi

Mae Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i wneud popeth o fewn ei gallu i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Mae tlodi cymharol yng Nghymru wedi aros yn weddol gyson am ddegawd a mwy ac mae ar ei uchaf ymysg plant. Dros y tymor hwy, cafwyd gostyngiad mawr yng nghyfradd tlodi pensiynwyr. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf mae hyn wedi dechrau cynyddu. Mae'r gyfradd tlodi ymysg pensiynwyr yn is o lawer nag mewn grwpiau oedran eraill (20% ymysg pensiynwyr, 24% ymysg oedolion o oedran gweithio a 28% ymysg plant).

Mae tlodi incwm cymharol yn fesur o anghydraddoldeb incwm, nid yn fesur uniongyrchol o safonau byw. Ar sail amcangyfrif, mae llai o bobl yn profi amddifadedd materol nag sydd mewn tlodi incwm cymharol.[xxxi] Mae Cymru wedi canolbwyntio'n ddiarbed ar achosion sylfaenol tlodi – rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a helpu pobl i gael swyddi cynaliadwy.

Darlun Data: Tlodi Incwm Cymharol

Canran yr holl bobl, plant, pensiynwyr ac oedolion o oedran gweithio sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru: 1994 i 2017



Ffynhonnell: Households Below Average Income, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Adroddiad Llesiant Blynyddol 2018, Llywodraeth Cymru

Tlodi Plant

Plant yw'r grŵp poblogaeth sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol, ac mae'r data diweddaraf yn dangos bod 29 y cant ohonynt yn byw mewn tlodi incwm.[xxxii] Mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn rhoi pwys ar atal wrth fynd i'r afael â thlodi plant, gan ganolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar a chyflogadwyedd.

Mae Dechrau'n Deg yn helpu mwy na 36,000 o blant dan 4 oed a'u teuluoedd bob blwyddyn yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r rhaglen **Teuluoedd yn Gyntaf** yn ceisio sicrhau newid mewn gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar i blant a theuluoedd. Mae Cymru'n datblygu gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod sy'n gallu delio mewn ffordd fwy ataliol â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a lliniaru eu heffaith drwy wella cydnerthedd plant a phobl ifanc.

Pobl hŷn

Mae mwy na 100,000 o bensiynwyr yn byw mewn tlodi yng Nghymru. Dros y tymor hwy, cafwyd gostyngiad mawr yng nghyfradd tlodi pensiynwyr.[xxxiii] Er hynny, mae'r gyfradd hon wedi codi ychydig yn y blynyddoedd diwethaf. Mae Cymru yn cydgynhyrchu Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio ar y cyd â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a phobl hŷn, sy'n mabwysiadu dull seiliedig ar hawliau i hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.

Darlun Data: Plant ar aelwydydd heb waith

Darlun Data: Plant ar aelwydydd heb waith

Cafwyd gostyngiad yng Nghymru yng nghanran y plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith rhwng 2015 (13.7%) a 2017 (12.6%), a gostyngiad sylweddol o'r ffigur uchaf o 20% yn 2009. Yn 2017, roedd 27.2% o blant yng Nghymru yn byw ar aelwyd lle mae o leiaf un o'r oedolion (ond nid pob un) yn gweithio, a 60.3% yn byw ar aelwyd lle mae'r holl oedolion yn gweithio.

Canran y plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith yng Nghymru: 2014 i 2017[xxxiv]



Ffynhonnell: Adroddiad Llesiant Blynyddol, 2018 – wedi'i ddiwygio ar gyfer cyfnod 2015

Anabledd

Y gyfradd cyflogaeth ymysg pobl anabl 16-64 oed oedd 45.2 y cant yn 2018, sy'n is nag ymysg pobl sydd heb anabledd, fel bod bwlch cyflogaeth anabledd o 35.1 pwynt canran. Mae'r

bwlch hwn wedi aros yn gyson yn y blynyddoedd diwethaf[xxxv]. Ymysg yr holl bobl anabl, y bwlch cyflog anabledd yng Nghymru yn 2010-11 oedd 4.3 y cant, ac erbyn 2015-16 roedd y ffigur hwn wedi codi i 13.3 y cant[xxxvi]. Cyhoeddir Cynllun Hawl i Fyw'n Annibynnol newydd yn 2019.

Mae'r rhaglen Cymunedau am Waith wedi rhoi cymorth i bobl anabl gael hyfforddiant a gwaith drwy eu helpu i drechu rhwystrau i gyflogaeth. Bydd Gweithredu ar anabledd: hawl i fyw'n annibynnol yn gwella'r gallu i gael gafael ar gymorth, cyngor a gwasanaethau i bobl anabl yng Nghymru.

Tlodi mewn gwaith

Mae tangyflogaeth a thlodi mewn gwaith yn her, gan fod nifer mawr o bobl mewn swyddi tymor byr ansicr ac isel eu tâl. Mae mwy na hanner y bobl o oedran gweithio sydd mewn tlodi yng Nghymru'n byw ar aelwydydd sydd mewn gwaith.[xxxvii]

Gwerthfawrogi gofal di-dâl a gwaith domestig

Mae Cymru wedi ymrwymo i gefnogi gofalwyr di-dâl. Mae sicrhau hawliau gwell i'r holl ofalwyr wedi'i ymgorffori yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Sefydlwyd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr newydd yn 2018, i ddod â'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ynghyd i edrych ar y problemau a'r atebion er mwyn ymateb i bryderon gofalwyr o bob oed a rhywedd.

Diwygio lles a pholisi cyllidol

Nid yw'r cyfrifoldeb am ddatblygu polisi diwygio lles wedi cael ei ddatganoli. Nid yw'r adnoddau sydd ar gael i Gymru yn ddigon i ymateb yn llawn i effaith y newidiadau hyn. Er hynny, mae'n parhau i liniaru effeithiau lle y bo modd drwy ddarparu cyllid ychwanegol i gynorthwyo'r rheini sy'n profi'r effeithiau mwyaf. Cafwyd buddsoddi ychwanegol mewn gwasanaethau cynghori rheng flaen i sicrhau darpariaeth gosteffeithiol a chydgysylltiedig a darparwyd cyllid ychwanegol i'r Gronfa Cymorth Dewisol sy'n darparu taliadau argyfwng i bobl sydd mewn argyfwng a thaliadau untro i helpu pobl i fyw'n annibynnol. Ymysg y mentrau eraill y mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer y rheini sydd ar incwm isel a'r rhaglen prydau ysgol am ddim.

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i'r achos o blaid datganoli'r gweinyddu ar rai agweddau ar y system budd-daliadau ac yn edrych ar ffyrdd posibl i wneud pethau'n wahanol yng Nghymru.

Mae pobl yng Nghymru yn cael budd o wasanaethau heblaw'r rheini sy'n darparu incwm lles uniongyrchol sy'n gwella bywydau pobl (a elwir yn "gyflog cymdeithasol"). Ymhlith y rhain y mae'r lwfans cynhaliaeth addysg i'r rheini sydd mewn addysg bellach; trafnidiaeth ddi-dâl i bobl dros 60 oed; presgripsiynau am ddim; a brecwast am ddim mewn ysgolion.

Diogelu cyflenwadau bwyd a maethiad da

Mae ymchwil yn dangos bod rhai pobl yng Nghymru yn dweud eu bod mewn tlodi bwyd: roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 wedi adrodd bod 1% o aelwydydd wedi cael bwyd gan fanc bwyd yn y 12 mis diwethaf.

Mae'r rhaglen Cadw Cymru'n Daclus yn gweithio gyda deg Eco-ysgol mewn ardaloedd difreintiedig i feithrin sgiliau tyfu bwyd. Mae'r gwaith hwn yn dod â manteision hirdymor pwysig i

ddelio â thlodi bwyd a bydd yn cymell plant ar bob lefel cyrhaeddiad i ddatblygu sgiliau ymarferol.

Mae mentrau yng Nghymru sy'n helpu i wella maethiad yn cynnwys:

- Y Cynllun Cymhorthdal Llaeth Ysgol sy'n ceisio cynyddu'r defnydd o gynhyrchion llaeth gan blant ysgol.
- Gall yr holl blant mewn ysgolion cynradd a gynhelir gan awdurdod lleol gael brecwast am ddim yn yr ysgol, os yw'r ddarpariaeth ar gael.
- Mae prydau ysgol am ddim ar gael i ddisgyblion cymwys sy'n mynychu'r ysgol yn amser llawn.

Ciplun o weithgarwch: Rhwydwaith Tlodi Bwyd Cymru

Sefydlwyd **Rhwydwaith Tlodi Bwyd Cymru** i ddod ag elusennau allweddol ac awdurdodau lleol yng Nghymru at ei gilydd. Nod y rhwydwaith yw ymgysylltu â rhanddeiliaid ar yr agenda tlodi bwyd yng Nghymru a darparu gwybodaeth am weithgareddau Cynghrair Tlodi Bwyd Cymru.

Ciplun o weithgarwch: FareShare Cymru

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae FareShare Cymru wedi'i leoli ar gyrion Caerdydd ac mae'n gweithio gydag elusennau a sefydliadau cymunedol ledled y De-ddwyrain. Mae gwirfoddolwyr yn allweddol i lwyddiant FareShare Cymru wrth helpu i liniaru tlodi bwyd a gwastraff bwyd yn y rhanbarth.

Tlodi tanwydd

Mae'r prif amcangyfrifon a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar dlodi tanwydd yng Nghymru yn awgrymu bod 12% o'r holl aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd.[xxxviii] Mae'r gwaith o osod mesurau arbed ynni mewn mwy na 50,800 o gartrefi yng Nghymru drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd wedi cyfrannu at y gostyngiad sylweddol mewn lefelau tlodi tanwydd er 2008. Bydd yr amcangyfrifon newydd ar dlodi tanwydd yn cyfrannu i gynllun newydd i ddelio â thlodi tanwydd sydd i'w gyhoeddi yn 2020.

Rhywedd

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi parhau i leihau ac mae bellach ar un o'r lefelau isaf erioed yng Nghymru. Er hynny, mae menywod yn llai tebygol na dynion o fod mewn cyflogaeth o ansawdd da[xxxix]. Yn yr un modd â gweddill y DU, mae cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru yn is ar gyfer menywod nag ar gyfer dynion – 70.6 y cant ar gyfer menywod a 78.9 y cant ar gyfer dynion ym mis Gorffennaf 2018[xl]. Mae cyfraddau anweithgarwch economaidd yn uwch ar gyfer menywod (26.7 y cant) nag ar gyfer dynion (17.6 y cant)[xli]. Y bwlch cyflog ar sail enillion amser llawn canolrifol yr awr oedd 6.3 y cant yn 2017, sy'n is na'r 7.9 y cant a gofnodwyd yn 2016. Yn achos cyflogeion rhan-amser yng Nghymru, mae menywod yn cael 7.0 y cant yn fwy o dâl na dynion ar gyfartaledd.

Darlun Data: y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Nid yw'r bylchau hyn yn ystyried ffactorau fel lefelau addysg a phrofiad sy'n amrywio ar draws y rhywiau ac a fydd yn effeithio ar lefelau enillion.

Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau mewn cyflogau amser llawn yr awr: 1997 i 2016

Ffynhonnell: Adroddiad Llesiant Blynyddol (2017-18) – Sleid 7

Cynhaliwyd Adolygiad Cyflym o bolisïau ar rywedd a chydraddoldeb yng Nghymru i edrych ar bethau sy'n cael eu gwneud yn dda, nodi pethau i'w gwella, ac ystyried enghreifftiau mewn Llywodraethau ym mhob rhan o'r byd er mwyn dysgu gwersi am eu modelau ac arferion. Bydd y cynllun a gyflawnir yn rhan o'r gweithgarwch ar Gam 2 yn amlinellu'r camau sydd i'w cymryd i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru gan ganolbwyntio ar ganlyniadau cyfartal.

Ciplun o weithgarwch: WEN Wales

Mae WEN Cymru yn rhwydwaith bywiog a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys mwy na 1,000 o sefydliadau ac unigolion sydd wedi ymrwymo i wneud Cymru yn lle tecach a mwy diogel i fenywod a merched. Mae ei waith wedi'i seilio ar Gonfensiwn y CU ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw yng nghyswllt pynciau STEM— gan ddelio â chydraddoldeb y rhywiau yn yr holl hyfforddiant cysylltiedig â STEM a ariennir ganddi, dulliau addysgu cynhwysol o ran y rhywiau ar gyfer athrawon ffiseg ac ariannu gweithdai codio cyfrifiadurol penodol i gynnwys ac ysgogi merched. Mae rhaglen STEM Cymru 2 yn ceisio cymell mwy o fenywod ifanc i gamu ymlaen i yrfaoedd mewn peirianneg. Hyd yma, mae mwy na 3,000 o fenywod ifanc wedi cymryd rhan yn y rhaglen[xlii].

Yn 2019, amlinellodd Llywodraeth Cymru ei dull o gefnogi menywod sy'n entrepreneuriaid a chyhoeddodd ganllaw arfer da ar gyfer sefydliadau cymorth busnes ar y ffordd orau i ymgysylltu â menywod sy'n sefydlu eu busnes eu hunain neu'n rhedeg busnes yn barod.

Ciplun o weithgarwch: Chwaraeon Cymru

Mae Chwaraeon Cymru wedi cyflwyno Datganiad Sefyllfa ar Bolisi Amrywiaeth y Bwrdd ac wedi gwella cydraddoldeb y rhywiau ar ei Fwrdd er 2011 o 15% i 50% (2017) o aelodau benywaidd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid cyfalaf a refeniw i ddarparu peiriannau dosbarthu addas a nwyddau mislif yn yr holl ysgolion yng Nghymru ac mewn sefydliadau Addysg Bellach. Mae GIG Cymru hefyd yn darparu nwyddau mislif drwy Fyrddau Iechyd.

Darlun Data: Cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru

Yn yr un modd â gweddill y DU, mae cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru yn is ar gyfer menywod nag ar gyfer dynion – 70.6 y cant ar gyfer menywod a 78.9 y cant ar gyfer dynion ym mis Gorffennaf 2018

Cyfraddau cyflogaeth (canran y boblogaeth 16-64 oed) yn ôl rhyw a blwyddyn: 2005 i 2018 (cyfraddau Mai i Orffennaf)



Ffynhonnell: Adroddiad Llesiant Cymru

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ymyriad sylfaenol â hawliau dynol, yn achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb ac yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar deuluoedd, plant a chymdeithas. Nod Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw cymell y sector cyhoeddus i ganolbwyntio ar atal, amddiffyn dioddefwyr a chynorthwyo'r rheini sy'n wynebu eu heffaith.

Mae'r strategaeth genedlaethol bum mlynedd yn amlinellu sut bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r Ddeddf ac yn cynnwys heriau i'r agweddau meddwl sy'n sail i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a gwybodaeth am y cymorth a fydd ar gael i atal, amddiffyn a chynorthwyo. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i herio agweddau meddwl diwylliannol sydd wrth wraidd yr arferion niweidiol traddodiadol hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn drwy ymgyrchoedd cenedlaethol, gweithio gyda gwasanaethau sy'n arbenigo ym maes trais yn erbyn menywod du a lleiafrifoedd ethnig, a'u cefnogi.

Ciplun o weithgarwch: Byw Heb Ofn

Un o wefannau Llywodraeth Cymru yw Byw Heb Ofn sy'n darparu gwybodaeth a chyngor i'r rheini sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gwneir hyn yn bennaf drwy linell gymorth i bobl sy'n dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Mae data o Gyfrifiad 2011 yn dangos, o'r rheini sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru, mai dynion o grwpiau ethnig Du Affricanaidd (58 y cant), Cefndir Du Arall (53 y cant) a Chefndir Gwyn Arall (52 y cant) oedd yn fwyaf tebygol o fod mewn swyddi sgiliau isel. Ymysg menywod, y rhai mwyaf tebygol oedd

pobl o Gefndir Gwyn a Du Caribïaidd (71 y cant), Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig (70 y cant) a Bangladeshaidd (69 y cant).

Mae ethnigrwydd sydd heb fod yn Wyn yn gysylltiedig â thebygolrwydd mwy o fod mewn tlodi incwm cymharol. Roedd plant ac oedolion o oedran gweithio a oedd yn byw ar aelwydydd lle'r oedd y penteulu o grŵp ethnig nad oedd yn wyn yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol na'r rheini lle'r oedd y penteulu o grŵp ethnig gwyn.

Mae Rhaglen Ymgysylltu BAME Cymru gyfan yn brosiect ymgysylltu BAME. Caiff ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill, ac yn cael ei harwain gan y Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST). Drwy ymgysylltu â sefydliadau, grwpiau cymunedol a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig o bob cwr o Gymru, maent wedi nodi pedair prif flaenoriaeth i weithredu arnynt:

- cynrychioli pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol;
- cyflogaeth ac anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol;
- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol mewn ysgolion; a
- delio ag achosion hiliol, troseddau casineb a hiliaeth strwythurol.

Mae ymgysylltu'n parhau i fod yn hanfodol. Mae Fforwm Hil Cymru yn cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn, ac yn cael ei gadeirio gan un o'r Gweinidogion, ac mae ymgysylltu pellach drwy fforymau rhanbarthol a ffyrdd eraill yn elfen allweddol o waith Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid. Mae tynnu sylw at gyfraniadau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i fywyd Cymru yn bwysig hefyd, ac mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Mis Hanes Pobl Dduon a dathliadau blynyddol i nodi Windrush ledled Cymru.

Ciplun o weithgarwch: Rhaglen Ymgysylltu BAME Cymru Gyfan

Mae Rhaglen Ymgysylltu BAME Cymru Gyfan yn brosiect ymgysylltu BAME a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill o dan arweiniad Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru.

Mae'r Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn helpu pobl o wahanol gefndiroedd i gymryd mwy o ran mewn democratiaeth leol ac ystyried sefyll mewn etholiadau.

Ciplun o weithgarwch: Cymdeithas Tai Unedig Cymru

Ar ddiwedd 2018, cynhaliodd Cymdeithas Tai Unedig Cymru ei gŵyl gyfeillgarwch gyntaf ar gyfer ffoaduriaid gyda'r bwriad o ddod â nifer mawr o bobl at ei gilydd o wahanol gefndiroedd ac ethnigrwydd yng nghymuned Sblot. Roedd yn ddigwyddiad i bobl o bob oed lle'r oedd nifer o weithgareddau, yn cynnwys siop goffi dros dro a phaentio wynebau etc. Roedd y digwyddiad yn gyfle i helpu pobl i gysylltu â sefydliadau sy'n gallu helpu ffoaduriaid i ymaddasu i fywyd yng Nghymru.

Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol

Yn ôl yr amcangyfrifon diweddaraf, mae 2% o boblogaeth Cymru yn ystyried eu hunain yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol[xliii].

Mae gweithgarwch a sefydliadau cymunedol cryf ar gyfer pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol i gefnogi a dathlu cymunedau pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, gan gynnwys digwyddiadau Pride blynyddol sy'n prysur dyfu yng Nghaerdydd a rhannau eraill o Gymru. Serch hynny, mae pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yn dal i wynebu lefelau uchel o wahaniaethu, erledigaeth a throseddau homoffobig, gan gynnwys mewn gweithleoedd. Credir bod un o bob chwech o'r holl droseddau casineb sydd wedi'u cofnodi yng Nghymru yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol, ac mae llawer o droseddau ac achosion eraill yn digwydd ond heb gael eu riportio.

Mae ymchwil Stonewall ar faterion Traws wedi gweld bod un o bob wyth cyflogai sy'n drawsrywiol (12%) wedi wynebu ymosodiad corfforol gan gydweithiwr neu gwsmer yn y flwyddyn ddiwethaf; mae hanner y bobl sy'n drawsrywiol (51%) wedi cuddio eu hunaniaeth yn y gwaith am fod ganddynt ofn i rywun wahaniaethu yn eu herbyn, ac mae chwarter y bobl drawsrywiol (25%) wedi bod yn ddigartref.

Mae Stonewall Cymru wedi cael arian grant dros gyfnod o 3 blynedd 2017-20 i fod yn gorff sy'n cynrychioli pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau bod safbwyntiau pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yn cael eu clywed. Fel rhan o'r cyllid hwn, mae Stonewall Cymru wedi creu swydd Swyddog Ymgysylltu Trawsryweddol i weithio mewn cymunedau traws ar lawr gwlad o amgylch Cymru i glywed eu llais ac i ymgyrchu ar eu rhan.

Yn 2018, ymgynghorodd Llywodraeth y DU ynghylch newidiadau posib i'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd. Cafwyd llawer iawn o ymateb i'r ymgynghoriad, ac rydym yn dal yn aros am y canlyniadau. Bydd Llywodraeth Cymru yn eu hystyried wrth adolygu ein Cynllun Gweithredu Trawsryweddol, a gafodd ei gyhoeddi yn 2016.

Trosedd Casineb

Mae nifer y troseddau casineb a gafodd eu riportio yng Nghymru wedi dyblu bron ers 2012/13, i 3,370 yn 2017/18. Mae pwyslais wedi bod ar annog pobl i roi gwybod am droseddau casineb ac mae'n bosib bod y cynnydd hwn, yn rhannol, yn dangos bod mwy o hyder i roi gwybod am droseddau casineb.

Mae Cymru yn ariannu Canolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth. Mae'n cael ei rheoli gan Gymorth i Ddioddefwyr Cymru, ac yn rhoi cymorth i bobl sydd wedi dioddef pob categori o achosion a throseddau casineb. Mae mwy o gyllid wedi'i roi ar gyfer y gwasanaeth hwn ac mae cronfa grant newydd wedi'i chreu hefyd i sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sydd mewn perygl o wynebu troseddau casineb, gan ddangos i ba raddau y mae hyn yn effeithio ar y cymunedau hyn. Mae'r grant newydd hwn yn ychwanegol i Raglen Gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant bresennol Llywodraeth Cymru, sy'n gweithio ar draws sawl elfen o gydraddoldeb gan gynnwys hil; rhyw; anabledd; Sipsiwn, Roma a Theithwyr; pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol+; ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ogystal â throsedd casineb[xliv].

Mae Llwybr Ymateb Dioddefwyr Cymru yn gweithredu ledled Cymru ac yn cynnwys defnyddio proses y Gynhadledd

Amlasiantaeth Asesu Risg ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig. Cyfarfod ar gyfer rhannu gwybodaeth a rheoli risg mewn achosion risg uchel yw hwn sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr, a bydd yr holl asiantaethau allweddol yn bresennol.

Cymru O Gymunedau Cydlynus

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30	31	32	33	34	35
36	37	38	39	40	41	42
43	44	45	46			

Nod Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Nod hwn yn tynnu sylw at yr angen i bobl deimlo'n ddiogel yn eu cymuned. Yn 2016/17, roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod 73% o bobl yn teimlo'n ddiogel wedi iddi nosi, pa un a oeddent gartref, yn cerdded yn eu hardal leol, yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus neu mewn car. Roedd tua 80% o bobl yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded yn yr ardal leol neu wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, a 97% yn teimlo'n ddiogel gartref ac wrth deithio mewn car.[xlv] Yn ogystal â'r 440 o bersonél heddlu sy'n gorfodi cyfraith a threfn ledled Cymru, yn rhan o'u gwaith ar wneud cymunedau'n fwy diogel, mae Cymru yn darparu cyllid penodol i gynnal 500 o Swyddogion Diogelwch Cymunedol ar ben hynny.

Roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd wedi gofyn i ba raddau roedd pobl yn cytuno neu'n anghytuno eu bod yn perthyn i'w hardal leol; bod pobl yn yr ardal o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd gyda pharch. Yn 2016-17, roedd 50% o bobl yn cytuno â phob un o'r tri datganiad a thua 70% yn cytuno ag unrhyw un o'r datganiadau.

Er mwyn hybu cydlyniant cymunedol, mae wyth Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn gweithio ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r rhain yn gweithio ar lefel strategol a lleol i chwalu rhwystrau i gynhwysiant ac integreiddio ymysg grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio; cynorthwyo ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ystod y broses integreiddio; a mynd i'r afael â gwahaniaethu, gelyniaeth, tensiynau ac eithafiaeth.

Pwrpas Polisi Cynllunio Cenedlaethol Cymru yw sicrhau y bydd penderfyniadau cynllunio yn gwella bywydau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol a sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Mae Cymru yn datblygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, cynllun gofodol cenedlaethol 20 mlynedd i Gymru i gydgysylltu prosesau cynaliadwy ar gyfer cynllunio cartrefi, cyfleusterau a seilwaith.

Ciplun o weithgarwch: Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Mae Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru i ddefnyddio heddwch fel modd i wella canlyniadau ysgolion.

Cynigir cymorth i ysgolion wreiddio heddwch yn ethos yr ysgol a chymryd camau gweithredu cymdeithasol yn eu hysgol a'u cymuned. Yn benodol, mae'r rhaglen yn gwella sgiliau meddwl beirniadol, gwaith tîm, datrys problemau a chyfathrebu, ochr yn ochr â lleihau bwlio, gwahaniaethu, hiliaeth ac ymddygiadau negyddol mewn ysgolion. Mae'r prosiect wedi lleihau nifer y cofnodion o ymddygiad negyddol; wedi cynyddu'r cyfranogi yn llais y disgybl (300% yn fwy); y nifer sy'n cymryd rhan mewn gwasanaethau ysgol; a chamau gweithredu yn y gymuned e.e. codi arian at brosiect i ffoaduriaid. Er 2016 mae'r Cynllun Ysgolion Heddwch wedi cyrraedd 10,000 o ddisgyblion a 15 o ysgolion yng Nghymru.

Galluogi pawb i gael tai diogel a fforddiadwy

Mae deddfwriaeth digartrefedd Cymru wedi atal 21,500 o deuluoedd rhag mynd yn ddigartref rhwng Ebrill 2015 a Rhagfyr 2018.[xlvi] Mae hefyd o fewn cyrraedd ei tharged i ailddefnyddio 5,000 o gartrefi gwag.

Mae rhaglen dai arloesol Cymru wedi buddsoddi mewn dulliau a modelau newydd i sicrhau tai fforddiadwy o ansawdd da sydd bron yn ddi-garbon. Mae bron 800 o dai yn yr arfaeth.

Ciplun o weithgarwch: Cynllun Gweithredu Cysgu Allan

Mae'r Cynllun Gweithredu Cysgu Allan a ddatblygwyd ar y cyd â sefydliadau sy'n cynnwys **Shelter Cymru** ac aelodau o **Rough Sleepers Cymru** yn cynnwys gwahanol fathau o weithgarwch a fydd yn helpu pobl i ymgysylltu â gwasanaethau a gadael y strydoedd mor fuan â phosibl.

Ciplun o weithgarwch: Cyngor Conwy

Ciplun o weithgarwch | Mae Cyngor Conwy, drwy gydweithio ag Ysbyty Glan Clwyd, wedi lleoli swyddog tai yn nhîm "Camu i Lawr" yr ysbyty er mwyn nodi a delio â phroblemau tai a digartrefedd a fyddai fel arall yn gallu atal rhyddhau cleifion o'r ysbyty, gan arwain at flocio gwelyau.

Galluogi pobl i ddefnyddio systemau trafnidiaeth diogel a chynaliadwy

Mae Cymru wedi ymrwymo i ddarparu mynediad i systemau trafnidiaeth diogel, fforddiadwy, hygyrch a chynaliadwy. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn trawsnewid y seilwaith cerdded a beicio ac yn ysgogi newid mewn ymddygiad. Buddsoddir £2 miliwn mewn pwyntiau gwefru cerbydau trydan[xlvii] yng Nghymru.

Drwy ddarparu Metro De Cymru, bydd y ffordd y mae pobl yn teithio o gwmpas y rhanbarth yn cael ei thrawsnewid o ganlyniad i ddarparu gwasanaethau sy'n gyflymach, yn fwy mynych ac yn gydgysylltiedig.

Ciplun o weithgarwch: Trafnidiaeth Cymru

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gwmni di-elw o dan berchnogaeth lwyr sy'n darparu cymorth ac arbenigedd i brosiectau trafnidiaeth Cymru, gan hyrwyddo gweledigaeth Cymru ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth diogel, integredig, fforddiadwy a hygyrch o ansawdd da. Yn rhan o becyn buddsoddi cynhwysfawr, cyflwynir cerbydau newydd a rhai wedi'u rhaeadru dros y blynyddoedd nesaf a fydd yn llawer mwy eco-gyfeillgar na'r fflyd bresennol. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn darparu Metro De Cymru, a bydd yn cyfrannu hefyd at gyflwyno'r model hwn ledled Cymru yn y Gogledd-ddwyrain a'r De-orllewin.

Yn 2017-18, pobl hŷn neu bobl anabl a chanddynt docyn teithio oedd ar bron hanner yr holl deithiau bysiau yng Nghymru. Mae pobl hŷn a phobl anabl yn cael teithio am ddim ar wasanaethau bws ledled Cymru. Ers 2015, mae pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed wedi cael gostyngiad o un rhan o dair o'r pris teithio ar fws. Cafodd hyn ei ymestyn yn 2018 i gynnwys pobl rhwng 19 a 21 oed ledled Cymru.

Mae Cymru yn darparu cyllid a chyfarwyddyd strategol i bartneriaid er mwyn darparu ymyriadau diogelwch ffyrdd drwy

addysg a pheirianneg ledled Cymru drwy Grantiau Cyfalaf a Refeniw Diogelwch Ffyrdd, a chyllid i Asiantau Cefnffyrdd. Cafwyd cynnydd da ar gyflawni targedau Cymru ar gyfer lleihau'r nifer sy'n cael eu hanafu neu eu lladd yn y boblogaeth gyfan ac ymysg pobl ifanc, a chafwyd gostyngiad o 25% yn nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau traffig ffyrdd a gostyngiad o 41% ymysg pobl ifanc o'i gymharu â'r cyfartaledd yn 2004-2008.[xlviii]

Mae prosiect band eang Cyflymu Cymru (2012-2018) wedi trawsnewid y dirwedd ddigidol yng Nghymru. Er 2013, mae argaeledd band eang cyflym iawn wedi dyblu ledled Cymru. Mae'r prosiect wedi darparu cysylltiadau mewn mwy na 733,000 o safleoedd[xlix] ledled Cymru na fyddent wedi'u darparu drwy drefniadau masnachol dan arweiniad y farchnad.

Gwella'r gallu i wrthsefyll trychinebau

Mae Fforwm Cymru Gydnerth a Fforymau Cydnerth Lleol yn cysylltu rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol sy'n gweithio ar atal, trafod ac ymadfer ar ôl digwyddiadau trychinebus, drwy ymaddasu mewn ymateb iddynt. Mae 'Community Information on Risks in Wales' yn darparu gwybodaeth am y gwahanol fathau o argyfwng a all ddigwydd, ac awgrymiadau am yr hyn y gall y cyhoedd a'r gymuned ehangach ei wneud.

Mae Flood Risk Assessment Wales, 2019, wedi amcangyfrif bod 245,118 o unedau eiddo yn wynebu perygl o lifogydd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys 117,100 sy'n wynebu risg fawr, 44,668 sy'n wynebu risg ganolig a 83,350 sy'n wynebu risg fach o'r holl ffynonellau.

Darlun Data: Siwrneiau Teithwyr Rheilffyrdd yng Nghymru

Roedd cynnydd yn nifer y siwrneiau gan deithwyr rheilffyrdd yng Nghymru yn 2017-18. Roedd 31.03 miliwn o siwrneiau teithwyr rheilffyrdd wedi dechrau neu orffen yng Nghymru yn 2017-18, 1.9% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd mwy na dwy ran o dair (69%) o'r siwrneiau hyn o fewn Cymru.

Siwrneiau teithwyr rheilffyrdd o fewn ac i mewn ac allan o Gymru: 1995-96 i 2017-18



Ffynhonnell: StatsCymru

Erbyn 2021 bydd Cymru yn buddsoddi mwy na £350 miliwn mewn gweithgareddau i reoli risgiau llifogydd ac erydu'r arfordir o gwmpas Cymru. Yn 2019, bydd y gwaith yn dechrau ar adeiladu mesurau i reoli risgiau llifogydd ar y glannau yn rhan o raglen fuddsoddi ychwanegol o £150 miliwn dros dair blynedd ledled Cymru[l]. Mae'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol yn dyrannu cyllid i gynlluniau i leihau risg i fwy na 18,000 o unedau eiddo drwy brosiectau i atgyweirio, amnewid a chreu systemau newydd i amddiffyn yr arfordir.

Cymru Â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg Yn Ffynnu

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30	31	32	33	34	35
36	37	38	39	40	41	42
43	44	45	46			

Nod Datblygu Cynaliadwy

CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU

Mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac yn rhan annatod o dreftadaeth a diwylliant Cymru. Caiff ei hyrwyddo a'i hwyluso gan Gomisiynydd y Gymraeg. Yn 2011, roedd tua 562,000 o siaradwyr Cymraeg. Uchelgais Cymru, sydd wedi'i amlinellu yn Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, yw y bydd miliwn o bobl yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2050. Mae'r strategaeth yn ymdrin â'r angen i sicrhau hyfywedd cymunedau Cymraeg fel lleoedd sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd.

Mae arolygon yn dangos bod cynnydd bach wedi bod yn y degawd diwethaf yng nghanran y bobl sy'n dweud eu bod yn medru rhywfaint o Gymraeg. Mae gwybodaeth ar gael am y gwahaniaethau rhwng y Cyfrifiad a'r APS yn y bwletin ystadegol hwn sy'n cyflwyno canlyniadau ar y Gymraeg.

Mae'r system addysg yn cynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg i un miliwn erbyn 2050. Mae dwyieithrwydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl, gan helpu i leihau diffyg cyfle cyfartal. Yn 2017/18, aseswyd 22% o blant 6-7 mlwydd oed mewn Cymraeg iaith gyntaf: bydd hyn yn sicrhau eu bod yn dod yn ddwyieithog.[li] Bydd Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr yn codi hyn i 40% erbyn 2050. Bydd gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn sicrhau bod y ddarpariaeth o addysg sydd ar gael yn Gymraeg ar ôl addysg orfodol yn cynyddu a bod pawb yng Nghymru yn gallu datblygu'r iaith. Er mwyn hwyluso'r twf hwn, darperir cyllid o £51 miliwn at addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig gwersi Cymraeg am ddim i ffoaduriaid er mwyn cyflwyno'r bywyd a'r diwylliant Cymraeg i bobl a hefyd i hyrwyddo cydlyniant cymunedol mewn partneriaeth â Chyngor Ffoaduriaid Cymru yng Nghaerdydd ac mewn partneriaeth â'r Groes Goch yng Nghasnewydd. Mae cyfleoedd hefyd i ddysgu'r iaith yn anffurfiol mewn digwyddiadau cymdeithasol.

Darlun Data: Y Gymraeg yng Nghymru

Canran y rhai sy'n 3 oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, 1911 i 2011:



Caiff y ffigurau eu diweddaru ar ôl cwblhau cyfrifiad nesaf y DU.

Ffynhonnell: Adroddiad Llesiant Cymru

Ciplun o weithgarwch: Rhaglen Fusion

Mae **Fusion** yn rhaglen sy'n canolbwyntio ar helpu cymunedau yng Nghymru sydd o dan anfantais economaidd. Yn draddodiadol, mae'r cymunedau hyn yn wynebu rhwystrau wrth gael mynediad at ddiwylliant a threftadaeth, a'r buddion y gallant eu rhoi. Rhwng 2015 a 2017, roedd mwy na 5,000 o bobl wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau Fusion drwy gydweithio ag awdurdodau lleol, safleoedd treftadaeth, theatrau, ysgolion, amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd ymysg eraill i helpu mwy na 100 o bobl i ennill cymhwyster, gan greu mwy na 300 o gyfleoedd gwirfoddoli a helpu mwy na 1,500 o ddisgyblion i wneud yn well yn yr ysgol.

Cymryd rhan mewn chwaraeon

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2017/18 mae 59% o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol o ryw fath ond dim ond 32% sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu ragor yr wythnos[lii]. Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru ac mae'n gweithio ochr yn ochr â phartneriaid allweddol i hybu a darparu cyfleoedd mewn chwaraeon ledled Cymru. Drwy bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, bydd 17 o brosiectau yn cael cyllid o'r Gronfa Iach ac Egnïol o £5.4 miliwn. Mae pob prosiect yn helpu i gryfhau asedau cymunedol a galluogi pobl i fabwysiadu ffyrdd iachach o fyw.

Mae'r prosiectau a ddewiswyd yn ceisio lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau a rhwystrau mewn nifer o ffyrdd gwahanol.

Mae'r buddsoddiad newydd o £5 miliwn mewn cyfleusterau chwaraeon yng Nghymru yn dangos ymrwymiad i hybu'r gwaith o ddarparu cyfleusterau sy'n hyrwyddo Cymru egnïol. Hwn hefyd yw'r cam buddsoddi cyntaf yn dilyn argymhellion a gododd o'r adolygiad o gyfleusterau chwaraeon a gynhaliwyd yn gynharach eleni.

Treftadaeth

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn elfen ganolog yn ein hunaniaeth ddiwylliannol fel cenedl. Mae'n adrodd yr hanes am le Cymru yn y byd, o'i dechreuadau hyd at ei rhan mewn ffurfio'r byd modern.

Mae 3 o safleoedd treftadaeth y byd UNESCO yng Nghymru: mae Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd (Caernarfon, Conwy, Biwmares a Harlech), yn ogystal â dyfrbont a chamlas Pontcysyllte, yn y Gogledd, a thirwedd ddiwydiannol Blaenafon yn y De-ddwyrain.

Mae amgueddfeydd Cymru yn chwarae rhan hollbwysig mewn cadw hanes llafar ac ysgrifenedig Cymru, ei henebion a'i threftadaeth ac mewn rhannu cyffro eu storïau ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.

Bydd amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd Cymru yn derbyn cyllid cyfalaf o bron £1 miliwn gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu a gwella eu cyfleusterau a'u gwasanaethau.

Mae treftadaeth ddiwylliannol Cymru yn cyfrannu at ei ffyniant economaidd. Mae'n sbardun i dwristiaeth ac yn gwneud Cymru yn lle unigryw ar gyfer mewnfuddsoddi ac yn lle arbennig i fyw a gweithio. Mae'r cynllun Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru yn nodi pa mor bwysig yw adeiladau hanesyddol, parciau a safleoedd treftadaeth i economi Cymru.

Yn 2016, mae wedi'i amcangyfrif bod £963 miliwn a mwy na 40,000 o swyddi wedi'u cyfrannu i economi Cymru yn y sector treftadaeth, ochr yn ochr â thwristiaeth ac adeiladu. Yn 2017, cafwyd 1.8 biliwn o Ymweliadau Diwrnod Twristiaeth (YDTau) ym Mhrydain Fawr ac roedd 100 miliwn (6 y cant) o'r rhain yng Nghymru. Cyfanswm y gwariant o YDTau yng Nghymru yn 2017 oedd mwy na £4.3 biliwn.[liii]

Mae twristiaeth yn cyfrannu at feithrin hunaniaeth ac ymwybyddiaeth genedlaethol yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r gweithgareddau hyn yn sicrhau buddion economaidd uniongyrchol, gan helpu pobl a busnesau hefyd i sbarduno ffyniant a hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd .

Celfyddydau

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ceisio meithrin amgylchedd lle mae'r artistiaid a sefydliadau gorau yng Nghymru yn gallu creu eu gwaith gorau, er mwyn i fwy o bobl brofi ac ymddiddori yn y celfyddydau a sicrhau bod y celfyddydau'n aros yn berthnasol i bobl.

Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2017/18 adroddwyd bod 75% o bobl wedi mynychu neu gymryd rhan yng ngweithgareddau'r celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn.

Ciplun o weithgarwch: NoFit State Circus

Mae Admiral Insurance a NoFit State Circus wedi datblygu model buddsoddi corfforaethol i gynnal gweithgarwch diwylliannol er mwyn llesiant eu staff ac i dyfu'r economi ddiwylliannol. Mae'r bartneriaeth nawdd hon wedi defnyddio dulliau diwylliannol i gynnal llesiant staff mewn busnes preifat, ac wedi cefnogi busnes diwylliannol lleol yr un pryd.

Mae mwy na 500 o ysgolion a 12,000 o ddysgwyr wedi cymryd rhan yn y prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol ac mae Rhaglen Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan yn cynnig cyfleoedd i ysgolion weithio gydag artistiaid a sefydliadau diwylliannol er mwyn cyfoethogi addysgu ar draws y cwricwlwm.

Ciplun o weithgarwch: Noson Allan

Mae Noson Allan, un o gynlluniau Cyngor Celfyddydau Cymru, yn dileu'r risg ariannol sy'n codi wrth gynnal perfformiadau proffesiynol mewn lleoliadau cymunedol yng Nghymru. Mae'n darparu cyllid, tocynnau, cyngor ac argymhellion ar gyfer perfformiadau.

Mae pwysigrwydd y celfyddydau i iechyd a llesiant yn cael ei gydnabod fwyfwy. Ym Mai 2017, dywedodd Cyfarwyddwr Sefydliad Baring fod Cymru 'yn arwain y byd' mewn celfyddydau i bobl hŷn. Mae Cyngor y Celfyddydau wedi

Ciplun o weithgarwch

| Mae Cyngor Abertawe wedi defnyddio'r hyn oedd ar ôl yn sgil ymgeisio am Ddinas Diwylliant y DU i ddatblygu Fframwaith Diwylliannol ar gyfer gweithio â'i bartneriaid. Mae ganddynt gyrsiau ysgrifennu creadigol ar gyfer ffoaduriaid ac mae'r cyrsiau wedi cael eu cydnabod fel model o arferion da, gan bartneriaid Ewropeaidd yn y rhwydwaith Llywodraeth Leol a Dinasoedd Unedig.

llunio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chonffederasiwn GIG Cymru ac mae'n cydweithio'n agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyfranogwyr y Grŵp Trawsbleidiol ar y Celfyddydau ac Iechyd yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Cymru Sy'n Gyfrifol Ar Lefel Fyd-Eang

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol

1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30	31	32	33	34	35
36	37	38	39	40	41	42
43	44	45	46			

Nod Datblygu Cynaliadwy

CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG

Bydd strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru, sydd i'w chyhoeddi cyn hir, yn ceisio cyflwyno Cymru i'r byd fel 'Cenedl Greadigol y Genhedlaeth Nesaf'. Bydd y Strategaeth Ryngwladol wedi'i seilio ar werthoedd clir a fydd yn helpu i gyflwyno Cymru ar lefel ryngwladol – yn cynnwys ymrwymiad i gynaliadwyedd a chenedlaethau'r dyfodol, hyrwyddo egwyddorion Gwaith Teg a chred sylfaenol yn y ffaith y bydd Cymru yn cyflawni mwy wrth fynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf ein cyfnod – technoleg ddigidol, trechu tlodi ac anghydraddoldeb, wynebu heriau amgylcheddol a'r newid yn yr hinsawdd – drwy gydweithio ar draws ffiniau tiriogaethol.

Mae Cymru yn genedl allblyg sy'n masnachu â'r byd ac yn credu mewn hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd, gan gydnabod cyfrifoldebau Cymru yn y byd a hyrwyddo masnach deg a moesegol.

Bydd strategaeth Llywodraeth Cymru yn cynnwys pwyslais ar hyrwyddo cyfrifoldebau rhyngwladol Cymru drwy'r rhaglen Cymru o Blaid Affrica a thrwy ddangos agwedd Cymru at ddinasyddiaeth fyd-eang.

Meithrin gallu

Mae Hub Cymru Affrica a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r cynllun grantiau Cymru o Blaid Affrica yn darparu cyngor, hyfforddiant, cymorth a grantiau bach i'r cannoedd o grwpiau yng Nghymru sy'n gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r Nodau Byd-eang yn Affrica Is-Sahara. Cynllun Grant Cymru o Blaid Affrica yw un o brosiectau blaenllaw Llywodraeth Cymru yn ei rhaglen Cymru o Blaid Affrica. Mae'r cynllun yn galluogi grwpiau a sefydliadau cymunedol yng Nghymru i gael gafael ar gyllid ar gyfer prosiectau ar raddfa fach sy'n cyfrannu at gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy y CU yng Nghymru ac yn sicrhau buddion i Gymru ac Affrica. Mae'r rhaglen yn helpu pobl yng Nghymru i gymryd camau i drechu tlodi yn Affrica.

Gwisgoedd Ysgol Masnach Deg – ysgolion ledled Cymru

Pan yw plant Cymru yn yr ysgol, mae gormod o blant mewn gwledydd tlawd yn casglu cotwm yn y caeau i wneud gwisgoedd ysgol ar eu cyfer. Mae nifer mawr o'r bobl sy'n tyfu cotwm ac yn gweithio mewn ffatrïoedd i wneud dillad yn cael cyflog pitw, heb hawliau, yn gorfod gweithio oriau ychwanegol, ac mewn rhai achosion yn cael eu bygwth a'u cam-drin gan oruchwylwyr.

Mae pennu bod gwisgoedd ysgol i gael eu gwneud o gotwm Masnach Deg mewn ffatrïoedd moesegol yn un ffordd i ysgolion wneud gwahaniaeth. Mae safonau Masnach Deg yn gwahardd llafur plant, yn talu pris teg am gotwm a hefyd yn darparu premiwm Masnach Deg i'w fuddsoddi mewn cymunedau mewn gwledydd datblygol.

Erbyn hyn mae naw ysgol ledled Cymru yn cael gwisgoedd ysgol Masnach Deg gan Koolskools, yn cynnwys Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng, Ysgol Esgob Morgan yn Llanelwy, ysgol St Bernadette yng Nghaerdydd ac Ysgol Gymunedol Neyland yn Sir Benfro.

Addysg fyd-eang

Darperir Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) drwy addysg orfodol yng Nghymru. Dangoswyd mewn adolygiad yn 2014 fod dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau allweddol datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol a'i bod yn ddibynadwy ar gyfer pob un o'r saith thema mewn ADCDF.

Mae cwricwlwm newydd Cymru yn dilyn llwybr gweddnewidiol sy'n gwreiddio ADCDF ym mhob rhan o'r cwricwlwm drwy ddimensiwn rhyngwladol, gyda'r nod o ddatblygu disgyblion sy'n ddinasyddion moesegol, gwybodus.

Mae'r 70 a rhagor o aelodau Cynghrair Dysgu Byd-eang Cymru, sy'n cynnwys sefydliadau yn y trydydd sector, cynrychiolwyr AALlau ac ymarferwyr unigol, wedi parhau i ddarparu ADCDF o ansawdd da, gan ddefnyddio cyllid o wahanol ffynonellau ac, yn bwysicaf oll, cyllid a gafwyd gan raglen Erasmus+ a'r European Solidarity Core. Mae'r cyllid o dan bwysau a bydd methu â chael gafael ar gyllid Ewropeaidd yn dwysáu'r problemau hyn.

Mae Rhaglen Addysg Ryngwladol Cymru yn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar unigolion i gyfrannu mewn cymuned fyd-eang, ac mae elfennau yn y prosiect sy'n berthnasol i ADCDF, hyfforddi athrawon ADCDF a lleoliadau athrawon Cymru-Lesotho.

Ymfudo a symudedd pobl

Llywodraeth y DU yn hytrach na Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am loches a mewnfudo. Serch hynny, mae'r gallu i integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn llwyddiannus yn galw am gydymdrech gan Lywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus Cymru a chymunedau Cymru.

Ciplun o weithgarwch: ChangeMakers

Mae ChangeMakers yn brosiect dinasyddiaeth fyd-eang sydd wedi cael ei ddarparu er 2012 gan bartneriaid sy'n cynnwys Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, Masnach Deg Cymru, Oxfam Cymru, Cymorth Cristnogol, CAFOD a Chanolfan y Dechnoleg Amgen. Mae ChangeMakers yn datblygu pobl ifanc i fod yn ddinasyddion byd-eang. Yn y ddwy flynedd er 2016 y mae data ar gael ar eu cyfer, mae'r rhaglen wedi canolbwyntio ar bwnc byd-eang ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan weithio gyda saith ysgol a 119 o fyfyrwyr ChangeMakers. Mae myfyrwyr ChangeMakers wedi darparu dysgu gan gyfoedion i fwy na 4,000 o'u cyfoedion, gan hybu ymwybyddiaeth yn eu cymunedau, ac mae ysgolion wedi cychwyn ar y daith at fod yn Ysgolion Noddfa, y cyfan o dan arweiniad myfyrwyr ChangeMakers. Mae'r ysgolion sy'n cymryd rhan wedi gwreiddio'r pwnc yn eu cwricwlwm ac wedi dod yn fwy hyderus wrth addysgu'r pwnc hwn.

Uchelgais Cymru yw bod yn Genedl Noddfa, ac mae 'Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches' yn cynnwys nifer o gamau gweithredu i wella bywydau pobl sy'n ceisio noddfa yng Nghymru, a fydd o gymorth i leihau anghydraddoldebau, cynnig mwy o gyfleoedd a hwyluso gwell cysylltiadau rhwng cymunedau.

Mae'n cynnwys ymrwymiadau i sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn gallu cael gafael ar wasanaethau iechyd drwy gydol eu siwrnai lloches; bod gwybodaeth a chyngor yn

cael eu darparu iddynt fel y gallant integreiddio â chymdeithas yng Nghymru o'r diwrnod cyntaf un; eu bod yn cael eu harbed rhag amddifadedd a'u bod yn gallu manteisio ar gyfleoedd addysgol. Mae'r cynllun wedi'i gymeradwyo gan Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid.

Peidio Â Gadael Neb Ar Ôl

Mae Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yn rhag-weld *"byd lle y bydd parch cyffredinol at hawliau dynol ac urddas dynol, rheolaeth y gyfraith, cyfiawnder, cydraddoldeb a lle na fydd gwahaniaethu"*. Mae wedi'i seilio ar y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a chytuniadau rhyngwladol ar hawliau dynol ac mae'n pwysleisio'r cyfrifoldebau sydd gan bob gwladwriaeth i barchu, diogelu a hyrwyddo hawliau dynol. Mae pwyslais mawr ar rymuso menywod a grwpiau sy'n agored i niwed fel plant, pobl ifanc, pobl ag anableddau, pobl hŷn, ffoaduriaid, pobl sydd wedi'u dadleoli'n fewnol ac ymfudwyr.

Mae *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011* yn ddeddfwriaeth arloesol sy'n ymgorffori Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yng nghyfraith Cymru. Mae Confensiwn y CU ar Hawliau Pobl Anabl a'r Egwyddorion ar Bobl Hŷn wedi'u hintegreiddio ill dau drwy gyfraith Cymru yn swyddogaethau awdurdodau lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i ystyried eu hymgorffori ymhellach a bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2020.

Mae Cymru mewn sefyllfa ragorol i symud ymlaen at weithredu ac integreiddio NDCau drwy bolisi a chamau gweithredu ar hawliau dynol. Mae hyn yn gyson â'r addewid ryngwladol i "*beidio â gadael neb ar ôl*" a'r datganiad gan y Pwyllgor ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (Mawrth 2019 E/C.12/2019/1), y dylai hawliau dynol fod yn sylfaen i Agenda 2030 a'r cynnydd ar gyflawni'r NDCau.

Enghreifftiau o weithgarwch yng Nghymru

Mae nifer o enghreifftiau yng Nghymru o weithgarwch sy'n ategu gwerthoedd 'Peidio â Gadael Neb Ar Ôl' o dan y NDCau. Dyma ychydig o enghreifftiau:

NDC1:Dim Tlodi

Mae Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i hyrwyddo ffyniant a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Hefyd mae Cymru wedi penodi Comisiwn Gwaith Teg annibynnol i wneud argymhellion am ffyrdd i hybu a hyrwyddo arferion cyflogaeth deg er mwyn troi Cymru'n genedl gwaith teg.

NDC 2: Dim Newyn

Mae rhaglen Bwyd a Hwyl Cymru yn helpu ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig iawn i ddarparu brecwast a chinio maethlon, addysg am fwyta'n iach a gweithgareddau cyfoethogi eraill. Yn 2018 roedd tua 2,500 o ddysgwyr wedi elwa o'r rhaglen mewn 56 o ysgolion. Nod y cynllun yw mynd i'r afael â phroblemau fel diffyg cyflenwadau bwyd dibynadwy, colli dysgu yn ystod y gwyliau ac allgáu cymdeithasol.

NDC3: Iechyd Da a Llesiant

Yng Nghymru yn 2015, ffurfiwyd Mudiad 2025 i gynorthwyo pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng ngogledd Cymru sy'n debygol o fyw 11 mlynedd yn llai na'r rheini mewn ardaloedd eraill. Ei genhadaeth yw dileu anghydraddoldebau iechyd y gellir eu hosgoi erbyn 2025. Mae mwy na 300 o sefydliadau a phobl wedi ymaelodi erbyn hyn.

NDC4: Addysg o Ansawdd Da

Yng Nghymru, mae'r dull o gefnogi plant a phobl ifanc (0-25 mlwydd oed) ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei drawsnewid. Mae hyn yn cynnwys diwygio deddfwriaeth, datblygu'r gweithlu, pwyslais ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person a newid mewn diwylliant.

NDC5: Cydraddoldeb Rhywiol

Yng Nghymru, lansiwyd yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod 2018. Yn rhan o Gam 2 yr Adolygiad, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei gweledigaeth am gydraddoldeb rhywiol yng Nghymru, ac wedi datblygu egwyddorion ar gyfer Llywodraeth Cymru ffeministaidd.

NDC6: Dŵr Glân a Glanweithdra

Mae'r holl gwmnïau dŵr yng Nghymru yn cynnig Tariffau Cymdeithasol erbyn hyn.

NDC7: Ynni Fforddiadwy a Glân

Mae rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yn sicrhau camau gweithredu i helpu pobl ar incwm isel sy'n ei chael yn anodd cwrdd â chost eu hanghenion ynni cartref, yn cynnwys y rheini sydd mewn tlodi tanwydd neu'n wynebu risg o fynd i dlodi tanwydd.

NDC8: Gwaith Boddhaol a Thwf Economaidd

Mae Cymru'n sbarduno twf cynhwysol drwy gynyddu'r effaith ar sectorau sylfaen fel bwyd, tai ac ynni a thrwy fodel Datblygu Economaidd Rhanbarthol sy'n fwy cymwys i ddelio â gwahaniaethau rhwng gwahanol rannau o Gymru.

NDC9: Diwydiant, Arloesi a Seilwaith

Mae Cymunedau Digidol Cymru yn cael ei ddarparu gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ac yn cynorthwyo partneriaeth o sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

SDG10: Llai o Anghydraddoldeb

Yng Nghymru, mae'r rhaglen gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn darparu cymorth strategol i sefydliadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n gweithio ym meysydd rhywedd, anabledd, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd, troseddau hiliol a throseddau casineb.

NDC11: Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy

Ym mis Gorffennaf 2016, sefydlodd Cymru y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De i ddod â datblygu economaidd i'r ardal er mwyn sicrhau na fydd yn cael ei gadael ar ôl.

NDC12: Defnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol

Yn 2016, pasiwyd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd mwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig.

NDC13: Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd

Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu grŵp cynghori ar gyfiawnder hinsawdd i ystyried sut byddai'r newid o economi seiliedig ar danwyddau ffosil i ddyfodol carbon isel yn gallu effeithio ar ddiwydiannau a chymunedau yng Nghymru, er mwyn cyd-ddatblygu mesurau i ddatgarboneiddio i greu economi carbon isel sy'n deg ac yn cynnig mwy o gyfleoedd llesiant i bawb.

NDC14: Bywyd o dan y dŵr

Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu i alinio'r Llinell Wrando a Chymorth Cymunedol, llinell gymorth iechyd meddwl i Gymru, er mwyn atgyfeirio achosion i'r Fishermen's Mission yng Nghymru, sy'n helpu'r rheini sy'n wynebu ansicrwydd yn y diwydiant pysgota ac yn darparu gofal ymarferol i bysgotwyr a'u teuluoedd.

NDC15: Bywyd ar y tir

Buddsoddir mwy na £300,000 mewn rhaglen newydd i dreialu prentisiaethau coedwigaeth yng Nghymru. Mae fforestydd a choetiroedd yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd gyrfa sy'n galw am sgiliau arbenigol iawn fel cwympo coed, tocio, bondocio, cynhyrchu sglodion coed ac ailblannu.

NDC16: Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cadarn

Mae Llwybr Ymateb Dioddefwyr Cymru yn gweithredu ledled Cymru ac yn cynnwys defnyddio proses y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig.

NDC17: Partneriaethau i gyflawni'r nodau

Mae rhaglen Cymru o Blaid Affrica yn helpu pobl yng Nghymru i gymryd camau i ddileu tlodi yn Affrica drwy ariannu a datblygu prosiectau sy'n hybu dysgu, cyfnewid sgiliau, gweithio ar y cyd a chamau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Adran C | Myfyrio ar gynnydd

Mae gan Gymru fframwaith polisi, deddfwriaethol a sefydliadol i alluogi datblygu cynaliadwy ac er 2015 mae wedi gweithio i wireddu buddion datblygu cynaliadwy drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a fframweithiau polisi a deddfwriaethol eraill sy'n ei hategu. Mae'r canlynol yn ystyriaethau sydd wedi codi yn ystod y gwaith o baratoi'r adroddiad atodol hwn ac ystyried yr adroddiadau a gafwyd gan randdeiliaid.

Gweledigaeth

Mae'r weledigaeth ar gyfer Cymru gynaliadwy wedi'i ffurfioli drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i saith nod llesiant. Drwy sicrhau hyn mewn cyfraith, gellir symud y drafodaeth hon ymlaen o ddiffiniadau at ffyrdd i sicrhau Cymru fwy cynaliadwy. Nid yw hyn yn golygu nad oes dadlau o hyd ynghylch datblygu cynaliadwy fel cysyniad ond, drwy'r dyletswyddau yn y Ddeddf a sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol annibynnol i Gymru, mae'r drafodaeth yn symud ymlaen at ystyried sut y gall sefydliadau weithio mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Cymerwyd camau i gymhwyso'r weledigaeth ar gyfer Cymru at ei chymunedau drwy amcanion a chamau gweithredu'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u henwi yn y Ddeddf.

Ymrwymiad Gwleidyddol

Mae'r ymrwymiad gwleidyddol i ddatblygu cynaliadwy yn nodwedd sefydlog mewn datganoli yng Nghymru a arweiniodd at gytundeb yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2015 ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i saith nod llesiant i Gymru.

Mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cefnogi'r Ddeddf drwy ei waith a'i argymhellion i Lywodraeth Cymru gan ddisgwyl i'r Llywodraeth ddefnyddio'r Ddeddf a'i fframwaith datblygu cynaliadwy wrth ystyried meysydd fel proses y gyllideb ac asesiadau effaith integredig.

Cefnogaeth y Cyhoedd: Y Gymru a Garem

Ym Mawrth 2014, lansiwyd sgwrs genedlaethol flwyddyn o hyd gan Michael Sheen, actor o fri o Gymru sy'n cefnogi gwaith UNICEF, i gynnwys pobl a chymunedau yng Nghymru mewn trafodaeth am y Gymru y maent am ei gadael yn waddol i'w plant a'u hwyrion, i greu'r Gymru y carent ei gweld erbyn 2050. Roedd Sgwrs 'Y Gymru a Garem' wedi'i chyflwyno yng nghyd-destun Sgwrs fyd-eang y Cenhedloedd Unedig am 'Y Byd a Garem'. Roedd bron 7,000 o bobl ledled Cymru wedi cymryd rhan drwy eu cymunedau a grwpiau (yn ogystal â chyfraniadau drwy gyfryngau cymdeithasol, cardiau post ac ar-lein) a threialwyd gwahanol ddulliau o ymgysylltu â phobl. Un agwedd allweddol oedd recriwtio Hyrwyddwyr y Dyfodol sydd wedi symud y Sgwrs yn ei blaen, gan eiriol ar ran cenedlaethau'r dyfodol a chodi materion sy'n effeithio ar eu grwpiau, cymunedau, a sefydliadau.

Er nad oedd digwyddiad ymgysylltu 'Y Gymru a Garem' yn ymgynghoriad ffurfiol ar ddarpariaethau'r Ddeddf arfaethedig, roedd yn gyfle i bobl a chymunedau Cymru gymryd rhan mewn sgwrs genedlaethol am y llwybr datblygu i Gymru a dylanwadu ar y ddadl

Y Cymru a Garem
The Wales We Want

gyhoeddus am yr heriau hirdymor y mae pobl Cymru yn eu gweld.

Yn y Sgwrs Genedlaethol am ddyfodol Cymru, y farn oedd mai'r newid yn yr hinsawdd oedd y mater pwysicaf oll i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r streiciau a gwrthdystiadau Newid Hinsawdd a gafwyd yn ddiweddar yn pwysleisio pa mor dyngedfennol yw'r broblem fyd-eang hon ym marn pobl Cymru.

Yn ogystal ag ystyried y nodau llesiant arfaethedig yng nghyd-destun y materion roedd pobl yn eu gweld yn hollbwysig i genedlaethau'r dyfodol, roedd y Sgwrs Genedlaethol wedi dangos bod ymdeimlad o gyfrifoldeb a pherchnogaeth ar y nodau hirdymor ac ar eu cyflawni yn bwysig i bobl Cymru. Roedd hefyd yn cadarnhau'r safbwynt yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol na ddylai'r nodau llesiant gael eu gweld ar wahân i'w gilydd a bod angen gweithredu arnynt gan eu gweld yn rhan o'r cyfan a bod angen pennu gweledigaeth a ffocws cyffredin ar gyfer cydarwain, gyda chamau gweithredu ar bob lefel ac ym mhob sector.

Cefnogaeth Ryngwladol

Fel y wlad gyntaf a'r unig wlad yn y byd sydd wedi deddfu ar lesiant a'r NDCau, mae gan Gymru stori unigryw i'w rhannu â gwledydd eraill. Drwy gyfuno'r arferion gorau ar lefel ryngwladol â gwerthoedd Cymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi codi proffil Cymru yn y byd, yng ngolwg gwledydd fel Seland Newydd a Chanada sy'n cydnabod pa mor bwysig yw rhoi llesiant ar ganol polisi llywodraeth.

> "Rydw i wedi rhyfeddu ac ymfalchïo yn yr ymateb gan sefydliadau, llywodraethau ac unigolion ledled y byd i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ffordd y mae'n parhau i ysbrydoli a chreu newid ar lefel ryngwladol." Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Cymru Ein Dyfodol

Er mwyn elwa o lwyddiant sgyrsiau 'Y Gymru a Garem', a chyflawni'r dyheadau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, lansiwyd 'Cymru Ein Dyfodol' gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng ngwanwyn 2019, i roi cyfle i gymunedau gyfrannu at ei Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol a dylanwadu ar y sgwrs am y camau rydym am eu gweld. Roedd Cymru Ein Dyfodol yn gyfle i sefydliadau, grwpiau ac unigolion ym mhob sector yng Nghymru gynnal dadl am y materion sy'n bwysig iddyn nhw yn ogystal â chefnogi maniffesto ar y cyd a chyfrannu iddo, ar drothwy etholiadau lleol a chenedlaethol.

Cynhelir digwyddiadau cymunedol Cymru Ein Dyfodol rhwng mis Mehefin 2019 a mis Tachwedd 2019 ac mae Llwyfan y Bobl y Comisiynydd yn barod i glywed gan bobl sydd am rannu eu storïau a'u syniadau. Drwy gasglu storïau fel hyn, bydd cyfle gan bobl o bob rhan o Gymru i rannu eu profiadau, syniadau, heriau ac atebion ar brif feysydd sylw y Comisiynydd ac ar feysydd mwy cyffredinol.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Grwpiau Rhanddeiliaid Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Ochr yn ochr â'r ymgysylltu â'r cyhoedd, roedd rhanddeiliaid sector o bob math yn y gwasanaethau cyhoeddus ac mewn cymdeithas sifil wedi'u cynnwys wrth ddatblygu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ym mis Medi 2012 roedd y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ar y pryd, ar ran Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy bryd hynny, wedi galw grwpiau cyfeirio a gweithredu o randdeiliaid i gyfrannu at y

gwaith o ddatblygu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r canllawiau statudol ar ei chyfer. Roedd y dull ymgysylltu hwn yn rhoi cyfle i randdeiliaid rannu eu profiadau o geisio ymgorffori datblygu cynaliadwy mewn sefydliadau, gan helpu i wneud y Ddeddf yn berthnasol ar draws sector eang.

'Pawb gyda'i Gilydd'

Yn 2018 cynhaliwyd gweithdai gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid (dan arweiniad WWF Cymru) i feithrin cyd-ddealltwriaeth o'r ffordd y mae'r gweithredu gan Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei gweld, ei deall a'i chydnabod gan randdeiliaid y trydydd sector. Mae'r dull ymgysylltu penagored hwn yn dylanwadu ar gynlluniau ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid.

Uwchgynadleddau Rhanddeiliaid NDCau

Roedd yr Uwchgynadleddau Rhanddeiliaid NDCau yn rhoi cyfle i randdeiliaid o bob rhan o'r sectorau cyhoeddus a phreifat, cymdeithas sifil ac Addysg Bellach ac Uwch i ddod ynghyd i drafod dull Cymru o ymdrin â'r NDCau ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd y cynrychiolwyr yn gweld yr Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol yn gyfle i uno pobl, ac roeddent yn awyddus i ddatblygu dull unigryw Gymreig o ymgysylltu, yn ffurfiol ac anffurfiol, â phobl, cymunedau a gwahanol sectorau. Cafwyd galwad am dyfu rhwydweithiau Cymru a datblygu seilwaith effeithiol a llwyfannau digidol i greu mudiad i weithio ar y NDCau a'r nodau llesiant.

> "Mae cymhwyso'r nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio wedi ein helpu i gyfleu'r gwahaniaeth y bydd hyn yn ei wneud – y potensial i wneud mwy a pha effaith a dylanwad yn union a gawn ni ar bobl, cymunedau, yr economi leol." Cynrychiolydd Cymdeithas Dai mewn Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid NDCau

Gweithio gyda Busnes

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi ffurfio partneriaeth strategol â Busnes yn y Gymuned Cymru. Y sefydliad hwn yw Rhwydwaith Busnesau Cyfrifol y Tywysog yng Nghymru – sefydliad aelodaeth dan arweiniad busnes sy'n cynnwys busnesau blaengar o bob maint o bob rhan o Gymru sy'n deall bod busnes a chymdeithas yn dibynnu ar ei gilydd am ffyniant. Drwy gydweithredu â Busnes Cymru yn Llywodraeth Cymru, mae'r bartneriaeth yn bwriadu harneisio egni ac uchelgais y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i greu Cymru sy'n fwy cynaliadwy a chymdeithasol gyfrifol a gweithio ar ffyrdd posibl i gyflawni hyn.

Fforwm Rhanddeiliaid Aml-sector

Roedd y gweithgarwch cyntaf yn dilyn 2015 yn ymwneud yn bennaf â'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u henwi yn y Ddeddf a sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r uwchgynadleddau NDCau a'r gwaith ar yr Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol yng Nghymru wedi dangos bod awydd am weld mwy o weithredu gan gymdeithas sifil ehangach a busnesau ond bod angen mwy o waith ar y seilwaith er mwyn disgrifio cynnydd ledled Cymru a chynnal adolygiadau strategol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor i gynnwys rhanddeiliaid wrth weithredu Agenda 2030 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy ailwampio'r fforwm rhanddeiliaid, er mwyn symud ymlaen at y cam nesaf ar daith Cymru at ddatblygu cynaliadwy.

Mae WWF Cymru yn ariannu Cynnal Cymru ac WCVA i gynnal adolygiad o ymgysylltiad y trydydd sector â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac arferion gwledydd eraill sydd wedi rhoi'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ar waith er mwyn darparu argymhellion ar gyfer fforwm rhanddeiliaid aml-sector Llywodraeth Cymru, ynglŷn â sut gall y sector gefnogi'r cynigion.

Ciplun o weithgarwch: Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Drwy ddefnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru, mae'r WCVA, y corff aelodaeth cenedlaethol i'r trydydd sector yng Nghymru, wedi cynhyrchu adnoddau sy'n cynnwys taflenni gwybodaeth, tudalennau gwe, animeiddio a gweithdy, i gynnwys cymdeithas sifil mewn gweithgarwch o dan y Ddeddf a helpu sefydliadau i ddangos, neu gynyddu, eu cyfraniadau at gyflawni ei Nodau. Mae'r adnoddau hyn i'w gweld yn awr ar wefan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Y dudalen we 'Popeth Mae Angen i Chi Wybod' am y Ddeddf yw un o'r rhai yr ymwelir â nhw amlaf ar wefan y WCVA ac mae'n cael ei gweld mwy na 500 o weithiau y mis ar gyfartaledd.

Dichonoldeb

'Cydnabyddaf yr amrywiaeth o heriau mewnol ac allanol sy'n ei gwneud yn anodd gweithredu deddfwriaeth newydd. Fodd bynnag, mae risg bod rhai yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel 'rhywbeth arall i'w wneud'. Oni fydd y cyrff a'r unigolion hynny yn dechrau gweld sut y gall datblygu cynaliadwy eu helpu i ymdrin â heriau mawr o ran y gyllideb a gwasanaethau, yn hytrach na'i weld fel baich ychwanegol, ni fyddant yn llwyddo i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle y mae'r Ddeddf yn ei gynnig.'

Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2018

Pwrpas y Ddeddf oedd gwneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol cyrff cyhoeddus, fel na fyddai 'datblygu cynaliadwy' yn cael ei weld yn rhywbeth 'ychwanegol'. Y bwriad

oedd lleihau'r baich y byddai cyrff cyhoeddus yn ei ysgwyddo wrth wneud pethau'n wahanol drwy ymgorffori'r newid yn eu gwaith. Cynhaliwyd dadansoddiad costau i ddeall yr effaith ar gyrff a fyddai'n gweithredu'r Ddeddf.

Yn ei adroddiad yn 2018, roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi disgrifio rhai o'r heriau y byddai cyrff cyhoeddus yn eu hwynebu wrth weithredu'r Ddeddf.

Cafwyd enghreifftiau hefyd o ddefnyddio'r Ddeddf mewn penderfyniadau cyfreithiol mewn ffordd sy'n tynnu sylw at y ddeddfwriaeth a datblygu cynaliadwy.

Tystiolaeth

Mae deall cynnydd yn rhan allweddol o'r dull ôl-weithredu yng Nghymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi sefydlu nifer o fecanweithiau ffurfiol sy'n caniatáu asesu cynnydd a dysgu gwersi. Yn ogystal â hyn, mae rhanddeiliaid yn defnyddio'r Ddeddf i gasglu eu tystiolaeth eu hunain er mwyn dylanwadu ar benderfynwyr.

Trobwynt ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol?

Yn 2017, cynhaliwyd gwaith ymchwil a dadansoddi gan WWF Cymru sy'n taflu goleuni ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd yr ymchwil wedi dangos bod rhai enghreifftiau o arfer da, ond wedi cael bod y dull o weithredu'r Ddeddf yn anghyson ar draws gweithgarwch Llywodraeth. Ers y myfyrio hwn ar y flwyddyn gyntaf o weithredu, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i fuddsoddi mewn meithrin gallu a galluogrwydd staff a llinellau atebolrwydd, gan sefydlu grŵp trosolwg a galluogi dan arweiniad cyfarwyddwr sy'n adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Llywodraeth Cymru.

'Pawb gyda'i Gilydd

Yn '*Pawb gyda'i Gilydd – Awgrymiadau ar gyfer gweithredu o Weithdai'r Flwyddyn Newydd ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 2018'* cafwyd adolygiad o'r cynnydd gan Lywodraeth Cymru ar weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

> 'Un neges arbennig o gryf ... yw bod yn rhaid i ni, yn y sector cyhoeddus, ddod o hyd i ffyrdd newydd o gynnwys pobl yng nghamau cyntaf prosesau datblygu polisi a chynllunio ar gyfer cyflawni.'
>
> Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gweithredu yn cynnwys y diffyg arwyddion o newid a chynnydd mewn Llywodraeth, yr angen am ymateb 'llywodraeth gyfan' a oedd yn galw am ymdrech parhaus ac arweinyddiaeth gryf, caffael, integreiddio polisi, gwella gallu a galluogrwydd, a chwalu'r dirgelwch ynghylch prosesau penderfynu 'blwch du'. Bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar 'Daith ar gyfer Newid'.

Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol

Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru yn fan cychwyn pwysig wrth feithrin galluogrwydd a gwella dealltwriaeth o'r tymor hir. Mae'r adroddiad yn nodi tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n debygol o effeithio ar gynaliadwyedd yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn gam cyntaf tuag at ddatblygu adnodd sy'n gwella'n barhaus, drwy feithrin y gallu i ddeall y deunydd a gallu'r sector cyhoeddus i elwa ohono. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r sector cyhoeddus ehangach, academyddion a rhanddeiliaid eraill sy'n gysylltiedig i ddatblygu'r adnodd. Gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn galw am ystyried gwaith y Cenhedloedd Unedig o dan y Nodau Datblygu Cynaliadwy wrth baratoi'r adroddiad hwn, bydd yr Adolygiad

Cenedlaethol Gwirfoddol ac Adroddiad Atodol Cymru yn cael eu hystyried wrth lunio'r adroddiad statudol nesaf yn 2021/22.

Myfyrio ar Flwyddyn Un (Archwilydd Cyffredinol Cymru)

Yn 2018 adroddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ei asesiad o'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi ymateb i'r Ddeddf. Roedd yn cydnabod bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'u bod yn cymryd camau i newid eu ffordd o weithio.

Ciplun o weithgarwch | Canolfan Iechyd a Chynaliadwyedd

Mae Canolfan Iechyd a Chynaliadwyedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu ymgyrch 'Byddwch y Newid' sy'n dilyn Nodau Datblygu Cynaliadwy y CU ac sydd wedi'i haddasu i'r cyd-destun yng Nghymru ar gyfer yr holl staff mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n cynnig cynghorion buddiol ar 'gamau cynaliadwy' y gall staff eu cymryd i leihau eu heffeithiau negyddol ar y nodau llesiant, a chynyddu eu heffeithiau cadarnhaol arnynt, yn ogystal â chymhwyso hyn at y gwasanaethau cymorth a pholisïau yn eu sefydliad eu hunain. Mae'r Ganolfan Iechyd a Chynaliadwyedd hefyd wedi datblygu gweithdy sydd ar gael i'r holl staff i'w helpu i ddeall a gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy neu'r 'pum ffordd o weithio' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r adroddiad yn cydnabod bod yr holl gyrff cyhoeddus yn parhau i ddysgu sut i weithredu deddfwriaeth sy'n eofn ac uchelgeisiol ac yn ceisio sbarduno newid diwylliannol hirdymor mewn gwasanaethau cyhoeddus a fydd yn arwain at well canlyniadau i bobl Cymru.

Llesiant yng Nghymru: y siwrnai hyd yn hyn (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru)

Ers Ebrill 2017, mae cynghorau, byrddau iechyd, parciau cenedlaethol, gwasanaethau tân ac achub, Llywodraeth Cymru a sefydliadau cenedlaethol fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Chwaraeon Cymru wedi gweithio i gyflawni cyfanswm o 345 o amcanion. Mae'r adroddiad Llesiant yng Nghymru: y siwrnai hyd yn hyn yn disgrifio beth mae'r sefydliadau wedi dweud y byddant yn ei wneud yn y flwyddyn gyntaf hon ac yn cynnig cyngor ar y ffordd orau iddynt ddangos eu bod yn cymryd camau effeithiol i gyrraedd eu hamcanion.

Ymchwiliad i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus

Yn 2017 cytunodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i gynnal ymchwiliad i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus a'r gwaith o ddatblygu cynlluniau llesiant yng Nghymru, yn rhan o'i waith ar dlodi yng Nghymru. Mae manylion yr ymchwiliad ar gael yma

Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Yng ngwanwyn 2020 bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn llunio ei adroddiad cyntaf i Gymru gyfan o dan y Ddeddf. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru, a bydd yn gosod ei adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Disgwylir y bydd yr adroddiad yn cynnwys canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol o'i arolygiadau unigol o'r 44 o gyrff cyhoeddus sydd wedi'u henwi o dan y Ddeddf, sydd â'r bwriad o asesu'r graddau y mae pob un o'r cyrff hyn yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Cymru Ein Dyfodol

Ym Mai 2020, bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn llunio'r Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf i Gymru i gyflawni un o'i dyletswyddau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y cynnydd a gafwyd hyd hynny ac am yr hyn a ddylai ddigwydd yn y dyfodol, gan gynghori ar welliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn gosod a chyflawni amcanion llesiant i wella economi, cymdeithas, amgylchedd a diwylliant eu hardal yn y ffordd fwyaf effeithlon o dan y ddeddf honno.

Mesur

Er mwyn deall y cynnydd y mae Cymru wedi'i wneud ar gyflawni'r saith nod llesiant, mae Gweinidogion Cymru wedi gosod 46 o ddangosyddion cenedlaethol. Adroddir ar gynnydd blynyddol y genedl yn Adroddiad Llesiant Cymru bob blwyddyn. Cyhoeddwyd yr adroddiad am y tro cyntaf ym Medi 2017.

Mae gwaith mewn llaw hefyd i osod cerrig milltir i Gymru o dan y Dangosyddion Cenedlaethol. Bydd y rhain yn nodi disgwyliadau o ran canlyniadau'r dangosyddion ar bwyntiau penodol yn y dyfodol.

Myfyrio ar fesur cynnydd

Wrth fyfyrio ar y gwaith o ddatblygu Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru i fesur y cyflawni ar y saith nod llesiant, gwelwyd bod rhai heriau a gwersi allweddol y dylai gwledydd, cenhedloedd a rhanbarthau eraill fod yn ymwybodol ohonynt:

- **Canolbwyntio ar ganlyniadau cynaliadwy** - Roedd yn hollbwysig o'r cychwyn ein bod yn pennu dangosyddion a oedd yn mesur canlyniadau ac nid allbynnau perfformiad yn unig.
- **Cydbwyso'r goddrychol a'r gwrthrychol** - Os ydym am ddeall o ddifri a yw pobl yn credu eu bod yn "ddiogel" neu'n byw mewn "cymunedau cydlynus", yna mae'n bwysig deall canfyddiadau pobl a'u barn oddrychol.
- **Integreiddio** - Adlewyrchu natur integredig y nodau llesiant ac osgoi eu gwahanu wrth eu mesur.
- **Cynnwys a chydweithio** - Drwy ofyn 'Sut mae rhywun yn mesur y cynnydd y mae cenedl yn ei wneud' wrth ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- **Adrodd yn flynyddol** - Drwy Adroddiad Llesiant Blynyddol lle mae digon o le i roi sylw i rai agweddau penodol bob blwyddyn, fel y gwnaethon ni yn 2018 drwy ganolbwyntio ar lesiant plant.
- **Cyhoeddi ar ffurf ystadegau swyddogol** - Byddent yn cael eu cyhoeddi gan Brif Ystadegydd Llywodraeth Cymru yn unol â Chod Ymarfer y DU ar Ystadegau, a'r cynnwys a'r dulliau yn annibynnol ar Weinidogion.
- **Adrodd y stori** - Roeddem yn canolbwyntio ar lunio naratifau clir a fyddai'n adrodd y stori am y cynnydd ar gyflawni'r saith nod llesiant.

Adran D: Casgliad

Mae Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol y DU ac Adroddiad Atodol Cymru wedi rhoi cyfle i bwyso a mesur cynnydd, gan adeiladu ar y dulliau adolygu parhaus sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys adroddiad Llesiant Cymru blynyddol. Mae wedi dangos lle mae'r cynnydd wedi bod ac wedi cydnabod hefyd fod angen gwneud rhagor o waith. Mae'r camau gweithredu sy'n digwydd yng Nghymru yn cael eu disgrifio yn Adran B ac Adran C, sy'n cyfeirio at ein cyfraniad i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn ogystal â'r dulliau gweithredu.

O ran **ennyn** pobl i fod yn **rhan** o'r agenda datblygu cynaliadwy yng Nghymru, mae proses yr Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol wedi dangos y diddordeb sydd yn yr agenda datblygu cynaliadwy yma yng Nghymru, ac mae wedi cynnig cyfle rhagorol i ail-ymgysylltu â rhanddeiliaid bedair blynedd ar ôl cytuno ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy a phasio'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae awydd o'r newydd am gynnwys ac ennyn diddordeb cymdeithas sifil i gyflymu'r ymdrechion i gyflawni saith nod llesiant Cymru. I gydnabod hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cryfhau cyfraniad rhanddeiliaid yn y gwaith o weithredu Agenda 2030 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; rydym yn edrych ar y posibilrwydd o gryfhau cyfraniad cymdeithas sifil o'r newydd a'r posibilrwydd o gael fforwm rhanddeiliaid, i roi hwb i bennod nesaf taith datblygu cynaliadwy Cymru. Bydd hyn yn rhan o ddarn ehangach o waith sy'n edrych ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o gynnwys pobl a chymunedau yn y gwaith o siapio polisïau Llywodraeth Cymru a'u rhoi ar waith. Ym mis Ebrill, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd i ysgogi gweithredu ar draws Cymru, ac fel rhan o'n ffordd o gynnwys, bydd Grŵp Cynghori Climate Just yn cynghori'r Llywodraeth ar symud i ffwrdd o economi sy'n seiliedig ar danwydd ffosil, fel ei bod yn seiliedig ar degwch, ac ecwiti, ac yn gadael neb ar ôl.

O ran **data**, mae'r adroddiad hwn wedi dibynnu'n helaeth ar ein Hadroddiad Llesiant Cymru blynyddol statudol sy'n rhoi ciplun gwerthfawr o fywyd yng Nghymru, gan roi darlun eang o ganlyniadau llesiant - o ddisgwyliad oes, yr economi, tlodi, bioamrywiaeth i'r celfyddydau. Ac ystyried y gwersi rydym wedi'u dysgu o'r adroddiad diwethaf, rydym yn bwriadu canolbwyntio yn 2019 ar greu diweddariad byrrach o'r cynnydd yn erbyn y nodau, a beth mae'r data diweddaraf yn ei ddweud wrthym am lesiant Cymru, yn hytrach na chreu adroddiad llesiant blynyddol cynhwysfawr arall. Mae creu adroddiad llesiant blynyddol llawn yn dasg fawr, ac rydym yn cynnig ein bod yn cyhoeddi'r diweddariad llawn a chynhwysfawr bob 4-5 mlynedd gan ddilyn amserlen sy'n bodloni anghenion y defnyddwyr ac sy'n cyd-fynd â gofynion eraill Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

O ran **cyllido**'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru, mae'r Ddeddf yn dechrau sbarduno newid yn y ffordd mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'r cyllidebau sydd eu hangen i weithredu'r penderfyniadau hynny. Mae hyn yn rhan o osod datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol i ni. Mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar ddatgarboneiddio ac atal, ac mae'r un olaf wedi arwain at gytuno ar ddiffiniad aml-haenog sy'n ceisio helpu i ysgogi trafodaethau gwahanol am

gyllidebau yn y blynyddoedd i ddod. O ran caffael cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru wedi ymroi i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i gyd-ddatblygu Cynllun Gweithredu Caffael newydd i Gymru, sy'n esbonio'r model gweithredu ar gyfer y dyfodol ac yn gwreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan sicrhau cymaint o wariant caffael ag y bo modd yng Nghymru i helpu i gyflawni'r saith nod llesiant i Gymru.

Wrth **adolygu** ar ba gam mae Cymru ar ei thaith datblygu cynaliadwy, bydd yr adroddiadau a fydd yn cael eu paratoi a'u cyhoeddi gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru (Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol) ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (archwilio cyrff cyhoeddus) yn cael eu cyflwyno ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2020; byddant yn cynnig dull cyfreithiol o bwyso a mesur sut mae'r Ddeddf yn cael ei gweithredu. Cyn yr adroddiadau hyn, bydd gwaith yn cael ei wneud i edrych ar y ffyrdd gorau i Lywodraeth Cymru adolygu a gwerthuso'r broses o weithredu'r Ddeddf, a'i heffaith ar Gymru i fod yn wlad fwy cynaliadwy.

Wrth **edrych tuag at y dyfodol**, mae cryfhau capasiti a gallu'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i feddwl am yr hirdymor yn golygu rhoi'r lle a'r dystiolaeth i lywio penderfyniadau. Byddwn yn adeiladu ar yr adnodd Tueddiadau'r Dyfodol i hwyluso trafodaethau am y prif dueddiadau sy'n effeithio ar flaenoriaethau i Gymru, a chynnig hyfforddiant a chefnogaeth i sicrhau bod gwaith ar y dyfodol yn rhan o waith llunio polisïau. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i osod cerrig milltir i Gymru o dan y Dangosyddion Cenedlaethol.

Mae wedi bod yn gryn her i fwydo gwybodaeth i adroddiad yr Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol i gael cipolwg ar yr hyn mae Cymru wedi'i gyflawni y tu hwnt i'r llywodraeth ac **adolygu**'n drylwyr a phwyso a mesur ein cynnydd tuag at gyflawni'r nodau.

I weld yr hyn sydd wedi'i ddysgu o'r broses, bydd Gweithgor Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, sydd wedi helpu i ddrafftio'r adroddiad hwn, yn ymgynnull eto i bwyso a mesur y broses. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Gymru fod mewn sefyllfa well i roi darlun mwy cynhwysfawr o'r camau sy'n cael eu cymryd gan bobl, cymunedau, sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, a busnesau ledled Cymru yn yr Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol nesaf.

Rydym yn awyddus i **rannu'r gwersi** a ddysgwyd o'n dull gwahanol yng Nghymru wrth i ni ddeddfu i sicrhau datblygu cynaliadwy. Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein rhwydweithiau rhyngwladol i fynd â Chymru i Bedwar Ban Byd ond hefyd i ddod â Phedwar Ban Byd i Gymru, a bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru yn chwarae rôl allweddol yn hyn. Yn ogystal â bod Cymru yn dysgu oddi wrth eraill, rydym yn credu bod cymaint y gall eraill ei ddysgu o'n dulliau ni yng Nghymru; mae deg o'r prif nodweddion o'r hyn sydd i'w ddysgu wedi'u crynhoi isod.

Glasbrint Cymru I'r Byd
Un. Cydnabod bod rôl i ddiwylliant fel pedwerydd dimensiwn i ddatblygu cynaliadwy.
Gan gydnabod y rhan y mae diwylliant yn ei chwarae yng Nghymru, cafwyd galwad gryf gan Gymdeithas Sifil a gwleidyddion am lwyr gydnabod bod diwylliant yn bedwerydd dimensiwn i ddatblygu cynaliadwy.
Dau. Cymhwyso'r NDCau ar y lefel briodol drwy gymell pobl i fod yn berchen ar nodau cenedlaethol penodol.

Un o'r prif heriau yn Agenda 2030 yw penderfynu sut i gyfleu nodau byd-eang cyffredinol i bobl a chymunedau. Mae Cymru wedi mabwysiadu ffordd benodol Gymreig o ymateb i'r her hon drwy bennu a deddfu ar gyfer saith nod llesiant sy'n troi NDCau y CU yn bethau sy'n bwysig i Gymru.

Tri. Canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy fel egwyddor drefniadol – peidio â'i drin fel rhywbeth 'ychwanegol'

Mae Cymru wedi dysgu er 1998 fod perygl i ddatblygu cynaliadwy gael ei weld yn rhywbeth 'ychwanegol'. Mae angen ei brif ffrydio a'i wreiddio er mwyn newid ffocws sefydliadau a'u ffordd o weithio – mae hyn yn golygu bod rhaid ei weld yn **brif** egwyddor drefniadol. Roedd sefydlu diffiniad Bruntland yng nghyfraith Cymru yn hanfodol i hyn.

Pedwar. Sefydlu llais ac eiriolwr annibynnol dros ddatblygu cynaliadwy

Mae Cymru wedi hen gydnabod a gwerthfawrogi'r pwysigrwydd o gael llais annibynnol ar ddatblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'r fframwaith ar gyfer cynaliadwyedd yng Nghymru. Felly mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi sefydlu'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf yn y byd.

Pump. Sicrhau bod cyfrifoldeb byd-eang yn rhan hanfodol o'r ddadl a'r fframwaith

Gan gydnabod y rhan y mae gwlad fach fel Cymru yn gallu ei chwarae mewn byd cydgysylltiedig, mae'r seithfed nod llesiant i Gymru yn canolbwyntio ar ystyried a fydd y camau a gymerir gan y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cyfrannu at wella llesiant byd-eang.

Chwech. Symud y drafodaeth ymlaen o ddiffinio at gamau ymarferol

Mae nifer o'r heriau i gynaliadwyedd y mae lleoedd yn eu hwynebu yn cael eu hachosi gan benderfyniadau sy'n rhai tymor byr, adweithiol, di-gyswllt ac wedi'u gwneud heb gynnwys pobl a phartneriaid.

Saith. Cynnwys mecanweithiau sy'n edrych tua'r dyfodol

Gan gydnabod pwysigrwydd cydraddoldeb rhwng y cenedlaethau, mae'r Ddeddf wedi sefydlu 'Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol' rheolaidd i helpu penderfynwyr yng Nghymru i gael gwell dealltwriaeth o'r tueddiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a fydd yn effeithio ar Gymru yn awr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn helpu sefydliadau i weithio mewn ffordd 'dymor hir' ac i drafod a datblygu polisi gan ystyried opsiynau a dewisiadau ar gyfer y dyfodol.

Wyth. Dod â phartneriaid ynghyd ar lefel leol

Gan gydnabod bod nifer mawr o sefydliadau sy'n gallu rhoi datblygu cynaliadwy ar waith ar lawr gwlad, mae'r Ddeddf wedi sefydlu partneriaethau lleol o'r enw Byrddau Gwasanaethau Lleol i hybu cynllunio cydgysylltiedig rhwng awdurdodau lleol, y corff amgylchedd cenedlaethol (Cyfoeth Naturiol Cymru), y Byrddau Iechyd Lleol, a'r awdurdodau tân ac achub.

Naw. Rôl Archwilio.

Gan gydnabod pwysigrwydd cydraddoldeb rhwng y cenedlaethau, mae'r Ddeddf wedi sefydlu 'Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol' rheolaidd i helpu penderfynwyr yng

Nghymru i gael gwell dealltwriaeth o'r tueddiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a fydd yn effeithio ar Gymru yn awr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn helpu sefydliadau i weithio mewn ffordd 'dymor hir' ac i drafod a datblygu polisi gan ystyried opsiynau a dewisiadau ar gyfer y dyfodol.

Deg. Sbarduno gweithredu gan gymdeithas sifil a busnesau

Roedd Cymdeithas Sifil yng Nghymru yn hanfodol o ran argymell beth roedd yn bosibl deddfu arno, ac mae'n parhau i chwarae rhan bwysig mewn sbarduno gweithredu mewn cymunedau.

Atodiad A


Llesiant Cymru
Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru
Y saith nod llesiant ar gyfer Cymru
Nod 1
Nod 2
Nod 3
Nod 4
Nod 5
Nod 6
Nod 7
Cymru lewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru iachach
Cymru sy'n fwy gyfartal
Cymru o gymunedau cydlynus
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
A ffordd rydym yn mesur cynnydd
Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol ar gyfer Cymru
1
2
3
4
5
6
7
01 Canran y genedigaethau byw sengl â phwysau geni islaw 2,500g
02 Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf amddifadus
03 Y ganran o'r oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw

04	Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer	●	●	●				●
05	Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw			●	●	○		
06	Mesur o ddatblygiad plant bach	●			●	○	●	
07	Y ganran o'r disgyblion sydd wedi cyflawni'r "Trothwy Lefel 2" gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a Mathemateg, gan gynnwys y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim	●			●		●	
08	Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	●		●	●			
09	Gwerth Ychwanegol Gros am bob awr a weithir (o'i gymharu â chyfartaledd y DU)	●						
10	Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen	●		●	●			
11	Y ganran o'r busnesau sydd wrthi'n arloesi	●	●					●
12	Capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy sydd wedi'i osod	●	●			○		●
13	Crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd	●	●					●
14	Ôl Troed Ecolegol Cymru	●	●					●
15	Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen	●	●			○		●
16	Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y DU.	●		●	●			●

17	Y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau	●			●				
18	Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU, wedi'i fesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn	●	●	●	●	●	●	●	
19	Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol	●	●	●	●	●	●	●	
20	Y ganran o'r bobl sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith	●		●	●				
21	Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith	●		●	●				
22	Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran	●		●	●	●			
23	Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol				●	●		●	
24	Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/ cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt			●	●	●			
25	Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio			●	●	●			
26	Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw		●	●		●	●		
27	Y ganran o'r bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch		●	●	●	●	●	●	
28	Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli					●	●	●	
29	Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl			●	●				


30 Y ganran o'r bobl sy'n unig
31 Y ganran o'r anheddau sydd heb beryglon
32 Nifer yr unedau eiddo (cartrefi a busnesau) sydd mewn perygl uchel a chanolig o lifogydd sy'n deillio o afonydd a'r môr
33 Y ganran o'r anheddau gyda pherfformiad ynni digonol
34 Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref am bob 10,000 o aelwydydd
35 Y ganran o'r bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn
36 Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg
37 Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg
38 Y ganran o'r bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos
39 Y ganran o'r amgueddfeydd ac archifau sy'n dal casgliadau archifol/treftadaeth sy'n cyrraedd safonau achredu'r DU
40 Y ganran o asedau dynodedig yr amgylchedd hanesyddol sydd mewn cyflwr sefydlog neu well
41 Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru

42	Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru	
43	Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru	
44	Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru	
45	Y ganran o'r cyrff dŵr wyneb, a'r cyrff dŵr daear, sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan	
46	Yr adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiadau gan bartneriaethau Cymreig yng Nghymru a'r tu allan i'r DU sy'n gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig	

Gwybodaeth Bellach

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Os ydym am gyflawni'r nodau lles hyn ar y cyd, mae angen ffordd o fesur cynnydd er mwyn i ni gyd allu gweld a ydy pethau'n gwella ar gyfer Cymru gyfan. Dyna pam y mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad cyfreithiol ar Weinidogion Cymru i bennu dangosyddion cenedlaethol. Er bod y dangosyddion yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru, maent yn adlewyrchu Cymru gyfan ac yn ein galluogi i ddeall cyfraniad pawb.

Dylid darllen y ddogfen wybodaeth dechnegol ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol (*Sut mae mesur cynnydd cenedl – Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru: Dogfen Dechnegol*, Mawrth 2016) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r 46 dangosydd cenedlaethol a gyhoeddwyd ac a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2015.

Bydd sawl dangosydd cenedlaethol yn helpu i adrodd stori am gynnydd yn erbyn mwy nag un o'r nodau llesiant, ac i helpu chi fynd i'r afael â'r cysylltiadau hyn rydym wedi tynnu sylw at set bosibl o gysylltiadau rhwng dangosyddion cenedlaethol a nodau llesiant, at ddibenion cyfathrebu. Mae'r tabl hwn wedi ei baratoi at ddibenion cyfathrebu a thrafod yn unig, nid yw hyn yn golygu o reidrwydd bod cyswllt technegol neu gyfreithiol uniongyrchol nac anuniongyrchol rhwng y dangosyddion a'r nodau llesiant.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/

Animeiddiad	https://www.youtube.com/watch?v=rFeOYlxJbmw&feature=player_embedded
Dangosyddion Cenedlaethol Cymru	http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	www.cenedlaethaurdyfodol.cymru/

Atodiad B

Agenda 2030
Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

Cymru

Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol ar gyfer Cymru	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16	17
01 Canran y genedigaethau byw sengl â phwysau geni islaw 2,500g			●							●							


02
Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf amddifadus
03
Y ganran o'r oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw
04
Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer
05
Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw
06
Mesur o ddatblygiad plant bach
07
Y ganran o'r disgyblion sydd wedi cyflawni'r "Trothwy Lefel 2" gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a Mathemateg, gan gynnwys y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim
08
Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol
09
Gwerth Ychwanegol Gros am bob awr a weithir (o'i gymharu â chyfartaledd y DU)
10
Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen
11
Y ganran o'r busnesau sydd wrthi'n arloesi

12	Capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy sydd wedi'i osod	
13	Crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd	
14	Ôl Troed Ecolegol Cymru	
15	Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen	
16	Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y DU.	
17	Y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau	
18	Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU, wedi'i fesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn	
19	Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol	
20	Y ganran o'r bobl sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith	
21	Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith	

22	Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran	
23	Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol	
24	Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/ cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt	
25	Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio	
26	Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw	
27	Y ganran o'r bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch	
28	Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli	
29	Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl	
30	Y ganran o'r bobl sy'n unig	
31	Y ganran o'r anheddau sydd heb beryglon	

32	Nifer yr unedau eiddo (cartrefi a busnesau) sydd mewn perygl uchel a chanolig o lifogydd sy'n deillio o afonydd a'r môr	
33	Y ganran o'r anheddau gyda pherfformiad ynni digonol	
34	Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref am bob 10,000 o aelwydydd	
35	Y ganran o'r bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn	
36	Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg	
37	Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg	
38	Y ganran o'r bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos	
39	Y ganran o'r amgueddfeydd ac archifau sy'n dal casgliadau archifol/treftadaeth sy'n cyrraedd safonau achredu'r DU	
40	Y ganran o asedau dynodedig yr amgylchedd hanesyddol sydd mewn cyflwr sefydlog neu well	

41	Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru	
42	Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru	
43	Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru	
44	Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru	
45	Y ganran o'r cyrff dŵr wyneb, a'r cyrff dŵr daear, sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan	
46	Yr adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiadau gan bartneriaethau Cymreig yng Nghymru a'r tu allan i'r DU sy'n gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig	

Nodau Datblygu Cynaliadwy

Mae Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030 yn gynllun gwaith trawsnewidiol wedi'i seilio ar 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig - i roi sylw i heriau argyfyngus byd-eang dros y 15 mlynedd nesaf. Mae nodau byd-eang y Cenhedloedd Unedig yn golygu y bydd yn rhaid i bob gwlad ar y blaned weithredu i drechu tlodi, hyrwyddo llewyrch a llesiant i bawb, diogelu'r amgylchedd a rhoi sylw i'r newid yn yr hinsawdd. Bwriedir i'r nodau hyn fod yn rhai pellgyrhaeddol, sy'n canolbwyntio ar bobl, sy'n berthnasol i bawb ac yn drawsnewidiol. Mae aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig wedi ymrwymo i weithio'n ddiflino i'w rhoi ar waith erbyn 2030, ac fe fydd Cymru'n chwarae ei rhan.

Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddeddfwriaeth unigryw i Gymru. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith i ni yng Nghymru i fod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang ac i gyfrannu'n gadarnhaol i'r nodau byd-eang hyn. Mae'n gosod nodau llesiant, gan

fynd i'r afael â llawer o'r heriau byd-eang hyn y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu ledled Cymru. Caiff y saith nod llesiant hyn eu mesur trwy 46 o ddangosyddion cenedlaethol.

Bydd sawl dangosydd cenedlaethol yn helpu i adrodd stori am gynnydd yng Nghymru yn erbyn mwy nag un o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, ac i helpu chi fynd i'r afael â'r cysylltiadau hyn rydym wedi tynnu sylw at hyn uchod, at ddibenion cyfathrebu. Mae'r tabl hwn wedi ei baratoi at ddibenion cyfathrebu a thrafod yn unig, nid yw hyn yn golygu o reidrwydd bod cyswllt technegol neu gyfreithiol uniongyrchol nac anuniongyrchol rhwng y dangosyddion a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'n seiliedig ar y dangosyddion sydd wedi eu pennu gan y Cenhedloedd Unedig i fesur y nodau datblygu cynaliadwy byd-eang.

---

i https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Household-Income/householdincome-by-measure-welsheconomicregion-year

ii Llywodraeth Cymru, Cymwysterau a enillwyd yng Nghymru yn ôl blwyddyn, lefel a dull astudio (2008 i 2018) - https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Students/Qualifications/qualificationsobtainedatwelshheis-by-year-level-modeofstudy

iii Llywodraeth Cymru, Number of work-based learning programmes by age group, gender and programme type (2011 to 2012) - https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Time-Series/Learning-Network-Analysis-Legacy/NumberOfWorkBasedLearningProgrammes-by-Age-Gender-Programme

iv Llywodraeth Cymru, Llesiant Cymru: 2018 (2018) - https://llyw.cymru/llesiant-cymru?_ga=2.206010771.189280402.1562073446-425693270.1561544414

v Llywodraeth Cymru, Llesiant Cymru: 2018 (2018) - https://llyw.cymru/llesiant-cymru?_ga=2.206010771.189280402.1562073446-425693270.1561544414

vi International Comparative Performance of the Welsh Research Base, 2013, A report prepared by Elsevier for HEW, the Higher Education Funding Council for Wales, and the Welsh Government

vii Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019) https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/190321-prosperity-for-all-a-low-carbon-wales-cy.pdf

viii Llywodraeth Cymru, Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2017 (2017) https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/181113-energy-generation-in-wales-cy.pdf

ix Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019) https://gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/190321-prosperity-for-all-a-low-carbon-wales-cy.pdf

x Llywodraeth Cymru, Ynni adnewyddadwy o dan berchnogaeth leol – Cais am dystiolaeth (2018)

https://gweddill.gov.wales/topics/environmentcountryside/energy/renewable/local-renewable-energy-generation/call-for-evidence/?skip=1&lang=cy

xi Llywodraeth Cymru, Well-being of Wales 2017-18 (2018) https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-01/well-being-wales-2017-18.pdf

xii https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/ecological-and-carbon-footprint-of-wales-report.pdf

xiii https://cdn.naturalresources.wales/media/682366/sonarr-summary-september-2016-edited-august-2017.pdf

xiv https://cdn.naturalresources.wales/media/682366/sonarr-summary-september-2016-edited-august-2017.pdf

xv https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy

xvi Evans C, Rawlins B, Grebby S, Scholefield P, Jones P. 2015. Glastir Monitoring & Evaluation Programme. Mapping the extent and condition of Welsh peat. Welsh Government. NERC/Centre for Ecology & Hydrology (CEH Project: NEC04780)

xvii Public Health Wales NHS Trust, Obesity in Wales, (2019) - http://www.publichealthwalesobservatory.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1208/ObesityInWales_Report2018_v1.pdf

xviii Arolwg Cenedlaethol Cymru (2019) - https://gweddill.gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy

xix Public Health Wales, Smoking data: mortality, hospital admissions & prevalence projection tool - www.publichealthwalesobservatory.wales.nhs.uk/smoking2017

xx Llywodraeth Cymru, Camddefnyddio sylweddau: adroddiad blynyddol 2018 (2018) - https://llyw.cymru/camddefnyddio-sylweddau-adroddiad-blynyddol-2018?_ga=2.202364305.189280402.1562073446-425693270.1561544414

xxi Public Health Wales, Data mining Wales: The annual profile for substance misuse 2017-2018 (2018) - http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/FINAL Annual Profile for Substance Misuse 2017-18.pdf

xxii Public Health Wales, Adverse Childhood Experiences and their impact on health-harming behaviours in the Welsh Adult population (2015) - http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PRIDDocs.nsf/7c21215d6d0c613e80256f490030c05a/d488a3852491bc1d80257f370038919e/$FILE/ACE%20Report%20FINAL%20%28E%29.pdf

xxiii Public Health Wales, Cymru Well Wales: Adverse Childhood Experiences (ACEs) - (http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88524

xxiv Office for National Statistics, Conceptions in England and Wales: 2016 (2018) - https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/conceptionandfertilityrates/bulletins/conceptionstatistics/2016

xxv Conception statistics, England and Wales 2017, (2018) - https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/conceptionandfertilityrates/datasets/conceptionstatisticsenglandandwalesreferencetables

xxvi Daffodil: Projecting the need for care services in Wales [Internet]. Daffodilcymru.org.uk. 2017 [crybwyllwyd 24 Hydref 2017]. Ar gael yn: http://www.daffodilcymru.org.uk/

xxvii https://gweddill.gov.wales/topics/health/nhswales/mental-health-services/policy/dementia/?lang=cy

xxviii Llywodraeth Cymru, Derbyn cleifion i gyfleusterau iechyd meddwl: Ebrill 2016 i Mawrth 2017 (2018) - https://llyw.cymru/derbyn-cleifion-i-gyfleusterau-iechyd-meddwl-ebrill-2016-i-mawrth-2017?_ga=2.201677073.189280402.1562073446-425693270.1561544414

xxix Jo McCarthy a Huw Brunt, Public Health Wales, Estimating the mortality burden of air pollution in Wales, http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/opendoc/317890

xxx Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gweithio gyda'n gilydd i leihau llygredd aer, risgiau ac anghydraddoldebau (2018) - https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/180425airpollutioncy.pdf

xxxi Adroddiad Llesiant Cymru 2018 (Llywodraeth Cymru, 2018)

xxxii Percentage of people living in households in income poverty relative to the UK median: measured for children, working age and those of pension age

xxxiii Ystadegau tlodi: Llywodraeth Cymru - https://gweddill.gov.wales/statistics-and-research/households-below-average-income/?skip=1&lang=cy

xxxiv Adroddiad Llesiant Blynyddol, 2018 – wedi'i ddiwygio ar gyfer cyfnod 2015

xxxv Llesiant Cymru: 2018, https://llyw.cymru/llesiant-cymru?_ga=2.206426387.189280402.1562073446-425693270.1561544414

xxxvi https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/being-disabled-data-tables-eg22-productive-valued-activities-pay-gap.xls

xxxvii Welsh Government analysis of Households Below Average Income data

xxxviii https://gov.wales/fuel-poverty-estimates-wales-headline-results-2018

xxxix Llesiant Cymru 2018 (Llywodraeth Cymru, 2018)

xl Arolwg o'r Llafurlu, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

xli Arolwg o'r Llafurlu, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

xlii http://record.assembly.wales/Plenary/4910#A42072

xliii https://llyw.cymru/cyfeiriadedd-rhywiol-2017?_ga=2.156585211.1520999846.1562583880-325486640.1562319344

xliv https://www.gov.uk/government/collections/hate-crime-statistics

xlv Llesiant Cymru, 2018 (Llywodraeth Cymru) https://gov.wales/well-being-wales

xlvi https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/preventionofhomelessness-by-area-measure-section66

xlvii https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/prosperity-for-all-annual-report-2018.pdf

xlviii Welsh Government, Review of the road safety framework for Wales (2018) - https://gov.wales/review-road-safety-framework-wales

xlix https://www.ispreview.co.uk/index.php/2018/07/733000

l https://gov.wales/construction-start-ps150-million-programme-coastal-risk-management-works-across-wales

li Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2015: Miliwn o siaradwyr (2017) - http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf

lii https://gov.wales/national-survey-wales-results-viewer

liii https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-05/summary-statistics-for-welsh-economic-regions-wales-338_0.pdf

llyw.cymru

OGL 37341 ©Hawlfraint y Goron, Llywodraeth Cymru 2019 ISBN 978-1-83876-821-8